



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyfarfod hybrid o'r CABINET
Dydd Llun, 28ain Chwefror, 2022 am 12.00 pm

Dolen gyswllt: Sarah Daniel – Uned Busnes y Cyngor (Rhif ffôn. 07385086169)

Os bydd Cyngorwyr yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm, Dydd Iau, 24 Chwefror 2022

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cyngorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. Dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno siarad gwneud hynny yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u pennu gan y Cadeirydd ar gyfer rhoi cyfle i'r rheiny nad ydynt yn Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 -
18)

3. POLISI FFIOEDD A THALIADAU'R CYNGOR 2022/23

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet y diwygiadau arfaethedig i lefelau ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 (pob un i'w gweithredu o 1 Ebrill 2022 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny) a manylion penderfyniadau o ran ffioedd a thaliadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ac sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Gyllideb arfaethedig 2022/23.

(Tudalennau 19 -
26)

4. CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2022/23

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet y cynigion a'r canlyniadau sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad yn rhan o ail gam yr ymgynghoriad ar y gyllideb, er mwyn i'r Cabinet drafod strategaeth gyllideb ddrafft y bydden nhw'n dymuno ei chyflwyno i'r Cyngor, a'i diwygio yn ôl yr angen.

(Tudalennau 27 -
94)

5. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2022/23 - 2024/25

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet raglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2022/23 hyd at 2024/25, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo, os yw'n dderbyniol.

(Tudalennau 95 -
124)

6. CYNLLUN LLEIHOU ARDRETHI BUSNES LLEOL 2022/23

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet fanylion Cynllun Lleihau Ardrethi Busnes Lleol arfaethedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â diweddariad ar barhad Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23.

(Tudalennau 125 -
132)

7. RHAGLEN GYFALAF CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY (YSGOLION YR 21AIN GANRIF YN FLAENOROL) - YSGOL GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG NEWYDD YN RHYDFELEN

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol mewn perthynas ag ariannu'r cynigion i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen.

(Tudalennau 133 - 140)

8. CYNLLUN CREU LLEOEDD PONTYPRIDD

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, mewn perthynas â'r Cynllun Creu Lleoedd drafft ar gyfer Canol Tref Pontypridd sy'n darparu gweledigaeth drawiadol ar gyfer adfywio'r dref.

(Tudalennau 141 -
200)

**9. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 (RIPA) -
DEFNYDD O RIPA YN 2020-21 GAN GYNGOR BWRDEISTREF
SIROL RHCT**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) (RIPA) a defnydd y Cyngor o Gaffael Data Cyfathrebu o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA).

(Tudalennau 201 -
206)

10. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

**11. CAFFAEL 103-110 STRYD TAF, PONTYPRIDD, CF37 4SL A 13-17
HEOL SARDIS, PONTYPRIDD, CF37 1DX**

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i brynu buddiant Rhydd-ddaliadol 103-110 Stryd Taf, Pontypridd a 13-17 Heol Sardis, Pontypridd.

(Tudalennau 207 -
220)

12. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

Derbyn [Cynllun Dirprwyo diweddaraf yr Arweinydd](#) yn dilyn newid i Aelodau'r Cabinet.



Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 27 Ionawr 2022 am
11.00 am

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd J Bonetto Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon Y Cyngorydd M Norris

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms Zoe Lancelott, Pennaeth Materion Llesiant a Chydnherthedd y Gymuned

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd P Jarman

96 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cyngorydd R Bevan fuddiant personol yn eitem 3 gan fod ganddo aelod o'r teulu sy'n gweithio i'r Awdurdod. Cadarnhaodd ei fod wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i drafod y materion

97 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021, yn rhai cywir.

98 CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2022/23

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol yr adroddiad i'r Cabinet. Dywedodd fod yn rhaid i'r gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 gael ei llunio yn unol â'r "Gyllideb a'r Fframwaith Polisi" (sy'n gynwysedig yng Nghyfansoddiad y Cyngor). O dan y trefniadau yma, mater i "Brif Swyddogion priodol" y Cyngor yw adrodd i'r Cabinet, ac wedyn dylai'r Cabinet argymhell cyllideb i'r Cyngor.

O ystyried y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor, mae'r Cyfarwyddwr yn dal i fod o'r farn y dylai'r Cyngor gadw lleiafswm o £10 miliwn ym Malans y Gronfa Gyffredinol. Yn rhan o'i strategaeth barhaus, mae'r Cyngor wedi parhau i nodi a chyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol sy'n golygu ein bod ni wedi gallu cynyddu lefel y cyllid pontio sydd ar gael. Y sefyllfa ddiweddaraf yw bod y gronfa yma bellach wedi cynyddu i £4.607 miliwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Archwilio Cymru yn parhau i bwysleisio bod rhaid i ni barhau i fod yn ddisgybledig ar yr adeg dyngedfennol yma, os ydyn ni eisiau cynnal ein hamcan tymor hir o ran gwella gwasanaethau allweddol yn barhaus, ond mae hyn yn dod yn fwyfwy anodd ei gyflawni yn sgil pwysau ariannol aruthrol o'r fath.

Hysbyswyd yr Aelodau mai'r cynnydd cyffredinol yng nghyllid y Grant Cynnal Refeniw (RSG) ac Ardrethi Annomestig (NDR) ar gyfer 2022/23 ledled Cymru gyfan, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, yw 9.4% (+£437M). Mae'r setliad ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn gynydd o 8.4%.

Er gwaethaf y setliad mwy cadarnhaol gan LIC ar gyfer 2022/23, dywedodd y Cyfarwyddwr fod hyn yn dilyn cyfnod parhaus o ostyngiadau gwirioneddol i'n lefelau cyllido, yn ogystal â gwaith adfer yn dilyn difrod storm a'r pandemig. Mae angen i ni benderfynu ar gyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf yn sgil y sefyllfa yma.

Nododd fod cymorth Llywodraeth Cymru i ariannu costau sy'n deillio o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig wedi parhau drwy gydol blwyddyn ariannol 2021/22, a hynny drwy'r Gronfa Galedi. Mae LIC wedi datgan nad ydw'n bwriadu parhau i ddarparu cymorth ychwanegol o'r fath yn y dyfodol ac y bydd yn rhaid i Gynghorau reoli'r goblygiadau yma drwy'r adnoddau ychwanegol a ddarperir yn y setliad. Bydd y Cyngor yn monitro'r goblygiadau ariannol yn agos wrth edrych tua'r dyfodol, gan ddefnyddio unrhyw hyblygrwydd a roddir o fewn ei gronfeydd wrth gefn i drosglwyddo unrhyw gostau ychwanegol parhaol i'r gyllideb sylfaenol yn y tymor canolig.

Atgoffwyd yr Aelodau bod costau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (CTRS) yn effeithio ar yr incwm net a gynhyrchir drwy unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Bydd cynnydd 1% yn Nhreth y Cyngor yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor sydd werth £1.195 miliwn (ar lefel sylfaen drethu 2022/23), ond bydd hefyd yn costio £0.253 miliwn ar gyfer gofynion ychwanegol o ran Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae'n dilyn, felly, bydd cynnydd o 1% yn cynhyrchu incwm net ychwanegol sydd werth £0.942 miliwn, neu, mewn geiriau eraill, bydd 21% o unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn cael ei golli er mwyn cefnogi'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â 'Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor' Llywodraeth Cymru. Dywedodd felly y cynigir bod lefel Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf bellach yn cael ei hailfodelu a'i gosod ar gynnydd o 1.00%. Byddai hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Cabinet o ran lefelau Treth y Cyngor ac yng ngoleuni'r setliad mwy ffafriol, byddai wedi'i gydbwysu yn erbyn y pwysau parhaus a nodwyd gan bob un o'n gwasanaethau.

Mewn perthynas â'r Gyllideb Ysgolion dywedodd y bwriedir ei chynnyddu i dalu, yn llawn, yr holl gostau chwyddiant cyflogau a chostau eraill, gan gynnwys costau Yswiriant Gwladol uwch sy'n gysylltiedig â'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn gyffredinol, bydd y cynnig yn cynyddu'r Gyllideb Ysgolion o £163.8 miliwn i £175.0 miliwn, cynnydd o £11.2 miliwn. Mae hyn yn gynydd o 6.8%. O'r herwydd, mae ysgolion yn cael eu hariannu'n llawn ar gyfer 2022/23.

Yn rhan o strategaeth gyllidebol y flwyddyn gyfredol, cafodd arbedion effeithlonrwydd o £4.6 miliwn eu nodi a'u cyflawni, er y nodwyd y byddai angen ystyried cynaliadwyedd parhaus cyflawni arbedion effeithlonrwydd ar y lefel yma. Er bod nodi a chyflawni arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn parhau i fod yn anos heb effeithio ar wasanaethau a darpariaeth rheng flaen, rydym wedi nodi £4.9 miliwn y mae modd ei dynnu o'n gofyniad cyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nododd y Cyfarwyddwr fod y Cabinet bob amser wedi canolbwyntio ar ddiogelu ein gwasanaethau rheng flaen ac wedi achub ar bob cyfle i flaenoriaethu neu ailddyrrannu adnoddau i feysydd sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r cynigion ar gyfer 2022/23 wedi'u nodi ym mhwynt 9.3 o'r adroddiad i'r Cabinet eu hystyried.

Roedd yr Arweinydd yn falch o glywed am y setliad cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ond dywedodd ei fod yn bryderus na fyddai cronfa caledi. Aeth ymlaen i ddweud bod hyn yn risg fawr i'r Awdurdod gan fod costau'n dal i gael eu hysgwyddo oherwydd y pandemig, a hynny oherwydd bod staff yn dal i orfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ynysu oherwydd COVID.

Siaradodd yn gadarnhaol am y cynnydd o £11.2 miliwn ar gyfer addysg a dywedodd mai hwn oedd y cynnydd mwyaf ers dechrau'i gyfnod yn Arweinydd yr Awdurdod, a bod hyn yn gydnabyddiaeth o'r heriau y mae ein hysgolion yn eu hwynebu.

Roedd hefyd yn falch bod cynnydd ariannol wedi bod ar gyfer meysydd Grantiau Cefnogi Busnes, Newid yn yr Hinsawdd ac Iechyd y Cyhoedd, gan mai dyma'r meysydd y bu'n rhaid i'r Awdurdod dorri'n ôl arnyn nhw dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn falch bod modd ail-fuddsoddi yn y meysydd yma.

Aeth ymlaen i ddweud y bydd y cynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i wrthbwyso pwysau megis y gostyngiad o £2 miliwn mewn Cyllid Cyfalaf. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi ceisio cadw hyn mor isel â phosibl i gefnogi trigolion trwy'r pandemig, ond nododd fod pwysau eraill wedi amharu ar hyn hefyd.

Wedyn, cyfeiriodd yr Arweinydd at gynydd o £75,000 yn y cyllid ar gyfer Pobl Ifainc sydd wedi Arwahanu, a fydd yn cyfrannu at drydydd cerbyd hwb - sy'n golygu y byddai un ym mhob ardal yn RhCT. Byddai hyn yn cyfrannu at ehangu'r rhaglen YEPS i barhau i weithio gyda phobl ifainc; gwaith sydd wedi cael effaith hynod o gadarnhaol hyd yma.

Gan gydnabod y cynnydd arfaethedig o 2.5% mewn ffioedd a thaliadau, er bod chwyddiant dros 5% ar hyn o bryd a'i fod yn parhau i godi, dywedodd yr Arweinydd ei fod yn credu ei bod yn deg ar drigolion a theuluoedd yn y Fwrdeistref bod yr Awdurdod yn amsugno rhai o'r costau, yn hytrach na'u trosglwyddo i deuluoedd a oedd yn dal i gael trafferth gyda chostau byw cynyddol.

Wrth gloi ei sylwadau roedd yn falch o fod mewn sefyllfa gadarnhaol yn dilyn y setliad, ond dywedodd na ddylid tanamcangyfrif y pwysau aruthrol y mae'r gwasanaethau yn dal i'w hwynebu. Er y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn rhagor o arian, maen nhw'n dal i wynebu pwysau ar raddfa enfawr a dyna pam y mae'n cynnig mynd ymhellach na chynnig y cyflog byw gwirioneddol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod eu safleoedd yn fwy cynaliadwy.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau'r Arweinydd mewn perthynas â'r setliad cadarnhaol, ac mae'n falch bod y Cyngor mewn sefyllfa i barhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau yma. Roedd hefyd yn bryderus y byddai dileu'r grant caledi yn effeithio ar gyllid y Cyngor yn ogystal â chostau byw cynyddol. Cafodd yr Aelodau sicrwydd y bydd y gwasanaethau'n rhewi cynifer o Ffioedd a Thaliadau â phosibl, gan gydnabod bod nifer o bobl yn wynebu cyfnod anodd iawn.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod hi'n galonogol gweld bod nifer gadarnhaol o breswylwyr wedi ymgysylltu â'r Cyngor er gwaethaf y cyfyngiadau COVID, a'i bod hi'n braf gweld bod cefnogaeth gref i'n blaenoriaethau. Aeth ymlaen i ddweud ei bod hi'n amlwg i bawb bod y Cyngor yn wynebu heriau aruthrol, ac roedd yn bryderus iawn am y cynnydd mewn costau byw heb unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth y DU ar sut mae modd mynd i'r afael â hyn.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag adeiladu cyllideb refeniw, y broses ymgynghori ar y gyllideb, ac adrodd i'r Cyngor, wedi'u nodi yn y "Gyllideb a Fframwaith Polisi" o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.
2. Nodi ac ystyried canlyniadau proses cam 1 o ymgynghori ar y gyllideb.
3. Adolygu ac ystyried drafft o Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23, y manylir arni yn y Papur Trafod sydd ynghlwm 'Atodiad A'.
4. Lefel y cynnydd yn Nhrefn y Cyngor o 1% ar gyfer 2022/23 y byddai'n dymuno ei gynnwys yn y strategaeth i ffurfio'r sail ar gyfer cynnal ail gam yr ymgynghoriad.
5. Yr amserlen ddrafft ar gyfer pennu cyllideb refeniw 2022/23, sydd wedi'i nodi yn Atodiad A2.
6. 6. Derbyn adborth o ail gam yr ymgynghoriad cyllideb er mwyn trafod a phenderfynu ar y strategaeth gyllidebol derfynol i'w chyflwyno i'r Cyngor.
7. 7. Bod y Cyngor yn parhau i gefnogi'r strategaeth ariannol tymor canolig gyda'r nod o sicrhau effeithlonrwydd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau, gwaith trawsnewid sy wedi'i dargedu a newidiadau eraill sy'n cynnal cywirdeb ariannol y Cyngor, tra'n dal i anelu at ddiogelu swyddi a gwasanaethau hanfodol yn y modd gorau posibl.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu yr adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig. Dywedodd fod yr adroddiad yn nodi, er bod gwaith sylweddol wedi'i wneud, nad yw'r Cyngor wedi gallu bodloni'r Cytundeb Cyflenwi ffurfiol. Aeth ymlaen i ddweud bod yr adroddiad yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o gydymffurfio â'n dyletswydd statudol i lunio Cynllun Datblygu ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i ddweud bod gwaith sylweddol wedi'i wneud ar baratoi'r CDLI Diwygiedig drwy gydol y pandemig Covid. Serch hynny, oherwydd y cyfyngiadau a osododd hyn ar y gallu i ymgysylltu'n llawn â'r cyhoedd a chomisiynu'r cyngor ymgynghorol angenrheidiol, ynghyd â materion allanol eraill sydd wedi codi; nid yw elfennau allweddol o waith paratoi'r CDLI Diwygiedig Newydd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni'n ffurfiol

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau, ac mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, cynigir ein bod ni'n rhoi'r gorau i weithio ar y CDLI Diwygiedig 2020–2030 presennol. Yn ei le, byddwn yn dechrau llunio CDLI Diwygiedig Newydd, a fydd ar waith am gyfnod hwy, sef 2022–2037. Byddai hyn yn caniatáu i Gynllun Datblygu gael ei baratoi ar gyfer Rhondda Cynon Taf sy'n ymateb yn llawn i'r materion allweddol sy'n ein hwynebu nawr, gyda Newid yn yr Hinsawdd a lleihau carbon yn greiddiol iddo, yn ogystal â dull gweithredu llawn a strategol o ran cynnal y Fwrdeistref Sirol ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn nhermau cynllunio technegol, fod pryder amlwg mewn perthynas ag un o'r tri 'Phrawf Cadernid' y bydd yr Arolygydd Cynllunio yn eu defnyddio i gytuno ar y CDLI Diwygiedig. Mae hwn yn ystyried a yw'r Arolygydd yn hyderus y gellir gweithredu a chyflawni'r CDLI Diwygiedig yn y cyfnod byr hwn h.y. ei holl nodau, amcanion, strategaethau, a datblygiad yr holl safleoedd a neilltuwyd. Ystyrir felly mai'r opsiwn mwyaf priodol fyddai rhoi'r gorau i lunio CDLI Diwygiedig 2020–2030 a dechrau CDLI Diwygiedig ar gyfer 2022-2037.

Cymeradwyodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu Menter a Thai yr adroddiad. Dywedodd fod Grŵp Llywio'r CDLI Diwygiedig wedi'i sefydlu a'i fod wedi cyfarfod yn gynharach yn y bore. Dywedodd ei bod hi'n amlwg bod COVID-19 wedi effeithio ar dargedau ac amseroedd cyflawni, yn enwedig y broses ymgynghori gyhoeddus ac ymgysylltu ag ymgynghorwyr. Nododd fod angen i ni nawr adolygu'r sefyllfa i symud ymlaen i lunio CDLI newydd i fynd â ni hyd at 2037.

Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, a chyda chaniatâd yr Arweinydd, anerchodd y Cynghorydd P Jarman y Pwyllgor ynghylch yr eitem yma – cyfeiriodd at Grŵp Llywio'r CDLI Diwygiedig yr oedd hi hefyd yn aelod ohono ac roedd yn falch o'r gwaith hyd yn hyn. Dywedodd eu bod yn brofiadol o ran polisiau cynllunio. Nododd y bydd y Cytundeb Cyflawni Drafft yn cael ei adrodd i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth ac y byddai'n cadw sylwadau tan hynny ac yn cyfrannu at y ddat

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo diwedd y gwaith ar CDLI Diwygiedig 2020–2030.
2. Cymeradwyo'r cynnig i ddechrau CDLI Diwygiedig gyda chyfnod estynedig 2022–2037. Mae hyn gyda'r ddealltwriaeth bod y rhan fwyaf o'r sylfaen dystiolaeth a'r prosesau a gyflawnwyd hyd

yma yn gallu cael eu cario drosodd, a'u diweddaru yn ôl yr angen.

3. Cymeradwyo bod y Cytundeb Cyflenwi Drafft (CC), sy'n nodi Cynllun Cynnwys y Gymuned ac Amserlen ar gyfer llunio'r CDLI Diwygiedig newydd, yn destun ymgynghoriad wedi'i dargedu ac ymgynghoriad cyhoeddus (ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad).
4. Bydd unrhyw ddiwygiadau priodol ac angenrheidiol o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cael eu hymgorffori yn y Cytundeb terfynol. Cynigir bod yr argymhellion yn 1 a 2 uchod, ynghyd â'r Cytundeb Cyflenwi terfynol, yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth. (Mae angen penderfyniad y Cyngor Llawn er mwyn ceisio cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i ddechrau paratoi'r CDLI Diwygiedig newydd).

100 STRATEGAETH ATAL AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant, yr adroddiad i'r Cabinet a oedd yn rhoi gwybodaeth am y strategaeth atal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r adroddiad yn cynnwys amlinelliad o'r gwasanaethau y bwriedir eu datblygu i wella ein harlwy i deuluoedd, a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud hynny'n bosibl.

Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant fod cefnogi teuluoedd yn flaenoriaeth i CBSRhCT a bydd angen gwasanaethau ychwanegol i gyflawni'r flaenoriaeth hon. Roedd yn falch bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gostwng yn raddol a bod yr Awdurdod yn datblygu gwasanaethau gwell. Dywedodd fod hyn yn arbennig o bwysig i rieni sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal eu hunain.

Ychwanegodd yr Arweinydd bod pwysau ar y gwasanaeth i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a braf oedd gweld hynny'n digwydd. Ar ôl mynychu nifer o gyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant, dysgodd fod astudiaethau wedi datgelu mai'r canlyniad gorau i blentyn yw darparu cymorth Ymyrraeth Gynnar a'i gefnogi i aros o fewn ei deulu.

Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, a chyda chaniatâd yr Arweinydd, anerchodd y Cynghorydd P Jarman y Pwyllgor ynghylch yr eitem - Hysbysodd yr Aelodau y bydd y Strategaeth yn ffocws i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol trawsbleidiol a sicrhodd nad oedd gwleidyddiaeth bleidiol yn ystyriaeth pan ddaw'n fater o ddiogelu plant agored i niwed. Roedd hi'n falch o ddysgu am yr wybodaeth yn yr adroddiad, yn ogystal â'i ddiben, sef gwneud gwahaniaeth a helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn a rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i weithredu'r buddsoddiad arfaethedig a datblygu'r gwasanaeth

Nodi'r cynnig bod y Cyngor yn arwyddo'r Siarter ar gyfer rhieni sydd mewn gofal ac yn gadael gofal, a fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

101 TRAWSNEWID GWASANAETHAU'R BLYNYDDOEDD CYNNAR YN RHCT

Cyflwynodd y Pennaeth Cymuned, Llesiant a Gwydnwch yr adroddiad i'r

Aelodau, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg tuag at ddarparu system blynyddoedd cynnar integredig fel rhan o Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a thrawsnewid gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn RhCT.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai uchelgais Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru yw gwireddu'r weledigaeth a nodir "i greu system wirioneddol gydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth ei chalon". Mae hyn yn golygu bod pob gwasanaeth y daw teuluoedd a phlant ifanc i gysylltiad ag ef yn glir ynghylch y ffordd orau o gefnogi datblygiad plant yn yr ystyr ehangaf. Bydd yn targedu rhieni cyn gynted â phosibl ac yn cynnal cymorth lle bo angen. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn fuddsoddiad yn economi a gweithlu'r dyfodol

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant, diolch i contract newydd gyda'r gwasanaethau lechyd, mai ni bellach yw'r unig Awdurdod yng Nghymru i gynnig amserlen gynyddol o asesiadau sgrinio Sgiliau ar gyfer pob plentyn 20 mis oed. Bydd hyn yn gymorth i nodi lle mae angen cymorth cynnar ac ymyrraeth, a bydd o fudd i CBSRhCT wrth symud ymlaen. Nododd hefyd fod y gwerthusiad allanol wedi gallu dangos tystiolaeth bod teuluoedd sy'n elwa ar ymyrraeth gynnar na fyddai wedi bod yn gymwys yn flaenorol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd rhanbarthol a wnaed ers mis Gorffennaf 2017 o ran darparu Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru.
2. Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn RhCT ers mis Gorffennaf 2019 o ran darparu gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar wedi'u trawsnewid yn RhCT, a chanfyddiadau gwerthusiad allanol Cam 1 o'r model cyflawni newydd sy'n cael ei dreialu.

Sylwch fod yr adroddiad hwn wedi bod yn destun rhag-graffiad gan y Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifanc ar 8 Rhagfyr 2021 ac mae'r sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Pwyllgor wedi'u nodi yn adran 10.7 o'r adroddiad hwn.

102 CANLLAWIAU NEWYDD I GYNHALWYR DI-DÂL YN Y GWEITHLE

Cyflwynodd y Pennaeth Gofal a Chymorth i Oedolion yr adroddiad i'r Aelodau i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r canllawiau staff sydd wedi'u cynllunio'n benodol i hysbysu cynhalwyr di-dâl yng ngweithlu'r Cyngor am y cymorth sydd ar gael iddynt helpu i reoli a chydbwyso cyfrifoldebau gwaith a gofalu, ac i egluro'r cymorth hwn yn ffurfiol i reolwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno'r achos busnes i'r Cabinet dros gyflwyno cyfnod newydd o absenoldeb i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl

Aeth y Pennaeth Gofal a Chymorth i Oedolion ymlaen i ddweud bod yr adroddiad wedi'i ddatblygu ar y cyd â gweithgor RhCT yn cynnwys cynrychiolwyr o'r garfan Datblygu Pobl, y garfan Amrywiaeth, AD a Gwasanaethau i Oedolion er mwyn cwmpasu'r posibilrwydd o gyflwyno cymorth mwy penodol i gynhalwyr di-dâl o fewn gweithlu RhCT

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg, mae'r gweithgor wedi paratoi Canllawiau i

Gynhalwyr sy'n Gweithio (Atodiad 1). Mae'r canllawiau'n awgrymu mân addasiadau y gellid eu hystyried yn y gweithle i gefnogi cynhalwyr di-dâl

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno absenoldeb di-dâl i gynhalwyr fel hawl statudol, a chynigir bod Cabinet RhCT yn cydnabod yr effaith sylweddol y gall cyfrifoldebau gofalu ei chael ar weithwyr ac yn cymeradwyo'r argymhelliad i ategu'r trefniadau absenoldeb presennol sydd eisoes ar waith i gynnwys mynediad at 5 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn i gefnogi'n benodol y digwyddiadau canlynol fel y'u nodir yn natganiad cyhoeddedig Llywodraeth y DU ar absenoldeb cynhalwyr.

Ymhellach i'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer cynhalwyr sy'n gweithio yn y Cyngor mae'r gweithgor hefyd yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ymgais i fynd ar drywydd aelodaeth ymbarél o 'Cyflogwyr i Gynhalwyr', a reolir gan Carers UK, sydd â'r nod o "sichrau bod gan gyflogwyr y gefnogaeth i gadw a rheoli gweithwyr gyda chyfrifoldebau gofalu".

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn falch o weld y cynigion oedd ger eu bron a chlywed bod mwy a mwy o Awdurdodau Lleol yn meithrin agwedd debyg yn hyn o beth. Mae cynhalwyr di-dâl yng Ngweithlu'r Cyngor yn chwarae rhan arwyddocaol yn eu Cymunedau ac yn y gymdeithas ac mae'n bwysig ein bod yn cyfeirio staff at y cymorth sydd ar gael iddynt.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn falch o weld y gydnabyddiaeth i'r cynhalwyr di-dâl yn y gweithlu sydd wedi darparu gofal hanfodol i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig a thu hwnt.

Dywedodd yr Arweinydd fod LIC wedi buddsoddi llawer o adnoddau yn hyn gan ei fod yn ymwybodol o'r pwysau yn y maes hwn, ac os nad oes modd ddarparu'r gefnogaeth hon bydd yn ychwanegu pwysau pellach ar wasanaethau bregus eraill. Ychwanegodd po fwyaf y gallwn ei wneud i gefnogi cynhalwyr, y gorau oll.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Canllawiau i Gynhalwyr sy'n Gweithio (Atodiad 1) a chefnogi ei weithrediad.
2. Cymeradwyo trefniadau absenoldeb â thâl penodol ychwanegol ar gyfer cynhalwyr di-dâl o fewn y gweithlu hyd at 5 diwrnod y flwyddyn.

Yn cymeradwyo dilyn cynllun achredu cydnabyddedig ar gyfer cynhalwyr sy'n gweithio'

103 DIWEDDARIAD AR Y CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gyflwyno Cydbwyllgorau Corfforaethol yn unol â darpariaeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Cymru) 2021.

Nododd fod Swyddogion Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Corff Atebol wedi bod yn rhoi'r holl gamau cyfreithiol, cyfrifyddu ac ymarferol ar waith i sichrau y gellir creu'r Cydbwyllgor newydd ar 28 Chwefror 2022. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg na fydd y risgiau a'r materion penodol a amlygwyd yn wreiddiol gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda Llywodraeth

Cymru yn cael eu datrys yn ddigonol i gefnogi trosglwyddo Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Cydbwyllgor erbyn dyddiad gosod cyllideb y Cydbwyllgor ar 31 Ionawr 2022. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw'r materion y mae angen eu datrys, sef statws A.33 (TAW), wedi'u hystyried gan LIC wrth osod y Rheoliadau. O ganlyniad mae arnom angen cymeradwyaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a Thrysorlys Ei Mawrhydi (HMT) i gymeradwyo'r statws trethiant cywir.

Yn ogystal, mae materion pellach wedi codi mewn perthynas â Threth Gorfforaeth. Mae hwn yn fater cymhleth nad yw'r Rheoliadau wedi rhoi sylw iddo hyd yma; a gallai fod â goblygiadau sylweddol i fodel gweithredu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oni bai yr eir i'r afael â'r mater yn yr un modd trwy gais i HMT am ollyngiadau perthnasol. Mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn, gyda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cefnogi cais achos busnes LIC i CThEM am y gollyngiadau perthnasol.

Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir ar gyfer cydweithio a llunio trefniadau, cyn belled â bod y newid yn ddi-dor i drigolion gyda gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu, yna byddai hyn yn gadarnhaol. Nododd ei bod yn bwysig bod yr Awdurdodau Lleol yn penderfynu pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu drwy'r Cydbwyllgorau a bod penderfyniad lleol ar wasanaethau sydd angen gwahanol anghenion mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol gwahanol. Mynegodd ei bryderon y gallai rhai datblygiadau y tu allan i drefi gael effaith andwyol ar ganol trefi felly byddai angen cydweithio agosach ag Awdurdodau Lleol ar gyfer hyn.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y bydd trefniadau Craffu yn allweddol i'r Cydbwyllgorau i gynnwys ymgysylltiad ehangach Aelodau a Chymunedau i fesur eu heffaith. Dywedodd fod CBSRhCT eisoes wedi cefnogi newid sylweddol yn nhrefniadau craffu presennol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, a chyda chaniatâd yr Arweinydd, anerchodd y Cynghorydd P Jarman yr aelodau ar yr eitem. Dywedodd er nad yw'n cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ar ôl craffu ar y ddeddfwriaeth, derbyniodd eu bod yn fodel o Lywodraethu Rhanbarthol. Holodd pam nad yw materion a diweddariadau wedi dod gerbron y Cyngor Llawn i bob aelod gael diweddariad ar faterion a bod angen bod yn agored ac yn atebol. Dywedodd hefyd ei bod yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi negodi gyda Llywodraeth y DU cyn gweithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ar faterion trethiant.

Cytunodd yr Arweinydd â'r sylwadau ynghylch y materion trethiant. Ychwanegodd y ceisiwyd cyngor cyfreithiol annibynnol a bod Cabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i symud ymlaen. Ychwanegodd ei bod yn siomedig nad oes unrhyw benderfyniad nac eglurhad wedi'i roi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y mater gan fod angen ei ddatrys cyn y gellir gwneud penderfyniadau strategol allweddol ar faterion lle mae goblygiadau ariannol. Sicrhodd fod Awdurdodau Lleol o fewn Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd bellach yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â hyn a gwneud i hyn weithio

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi bod y wybodaeth a ddarparwyd i'r Cabinet ar 18 Hydref 2021 mewn perthynas â chreu a datblygu Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain

Cymru wedi'i ddiweddar. Yn benodol, penderfyniad Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno model llywodraethu a chyflawni interim ar gyfer gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CJC) hyd nes y bydd nifer o faterion statws trethiant a risgiau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau wedi'u datrys;

2. Nodi'r gofyniad i'r CJC osod a chymeradwyo cyllideb ar neu cyn 31 Ionawr 2022;
3. Nodi'r cais a wnaed gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran gofyn i Lywodraeth Cymru ddiwygio rheoliadau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i newid y dyddiad y mae dyletswyddau uniongyrchol yn cychwyn o dan y Rheoliadau o 28 Chwefror 2022 i 30 Mehefin 2022, i alinio â'r tri Cydbwyllgor arall yng Nghymru;
4. Nodi llythyr y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 20 Rhagfyr 2021 yn ymgynghori â'r Cyngor ar ddiwygio dyddiad cychwyn Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru i 30 Mehefin 2022 ac ymateb Prif Weithredwr y Cyngor, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yn cadarnhau cefnogaeth y Cyngor i'r gwelliant. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 21 Ionawr 2022; a

Nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i Gyngorau cyfansoddol i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Archwilio Cymru a chynghorwyr fel y bo'n briodol, i helpu i lywio'r gwaith o ddatrys y materion sy'n weddill lle bynnag y bo modd

104 ADNODDAU RHEOLI DIOGELWCH TOMENNYDD

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen yr adroddiad i'r aelodau i ofyn am gymeradwyaeth i sefydlu Carfan Rheoli Diogelwch Tomennydd o fewn Gwasanaethau Rheng Flaen a fyddai'n canolbwyntio holl elfennau cyfredol diogelwch tomennydd gwastraff, gan gynnwys rheoleiddio, rheoli a chynnal a chadw i mewn i un Garfan Rheoli Diogelwch Tomennydd benodol.

Ers Storm Dennis, mae buddsoddiad cyfalaf mewn diogelwch tomennydd ynghyd â rhaglen fawr o waith cynnal a chadw tomennydd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi'i gyflawni gan Bennaeth Rheoli Asedau Seilwaith newydd y Cyngor, gan ddefnyddio cyfuniad o staff presennol, ymgynghorwyr, arbenigwyr ar secondiad a'r Awdurdod Glo. Mae hyn wedi galluogi Carfan Rheoli Perygl Llifogydd a Thomennydd i ganolbwyntio'n fwy penodol ar ofynion cynyddol Rheoli Perygl Llifogydd.

Nododd fod integreiddio agweddau diogelwch tomennydd o gyfrifoldebau'r Cyngor fel tiffeddiannwr gyda'i gyfrifoldebau o dan y "Ddeddf Awgrymiadau" yn darparu canolbwynt ar gyfer yr holl faterion diogelwch tomennydd ac yn galluogi sefydlu carfan ymroddedig i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau y bwriedir sefydlu Carfan Rheoli Diogelwch Tomennydd pwrpasol a fydd yn adrodd i Bennaeth Rheoli Asedau Isadeiledd y Cyngor o fewn Gwasanaethau Rheng Flaen.

Pan fydd yn cael ei sefydlu, bydd y garfan Perygl Llifogydd a Diogelwch Tomennydd presennol yn dod yn Garfan Rheoli Perygl Llifogydd gyda theitlau swyddi'n cael eu haddasu yn unol â hynny. Daeth i'r casgliad y byddai'r garfan

arfaethedig yn cynnwys 6 swydd y manylwyd arnynt yn yr adroddiad gydag atodiad marchnad posib yn ofynnol i ddenu ymgeiswyr i'r swyddi.

Dywedodd yr Arweinydd fod y carfanau diogelwch tomennydd glo pwrpasol yn adnodd y mae mawr ei angen o fewn yr Awdurdod. Rhagwelir y byddant yn gweithio ar rai o'r gwaith Cyfalaf sy'n dod ymlaen a hefyd gwaith adfer yn ardaloedd Tylorstown a Wattstown. Telir y costau o gyllid Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Gyfalaf. Ychwanegodd y bydd y ffordd newydd arfaethedig o weithio hefyd yn lleddfu'r pwysau ar y Garfan Rheoli Perygl Llifogydd

Diolchodd yr Aelod Cabinet Menter Tai a Datblygu i'r swyddog a'i garfan am ddod â'r adroddiad ymlaen a dywedodd fod gwir angen y garfan yma gan ein bod yn wynebu nifer o bwysau hefyd yn deillio o Newid yn yr Hinsawdd, felly roedd yn hanfodol cynyddu ein harbenigedd yn y maes i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Cytunodd y Dirprwy Arweinydd mai'r cynigion oedd y ffordd gywir ymlaen i roi sicrwydd diogelwch i'n preswylwyr.

Gyda chaniatâd yr Arweinydd, anerchodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman y pwyllgor ynglŷn â'r eitem yma. Dywedodd ei bod yn derbyn yn llwyr yr angen i wneud y mwyaf o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen waith gwerth miliynau o bunnoedd ynghyd ag amserlen o waith diogelwch blaenau a hefyd i geisio sefydlu canolfan ragoriaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Jarman yn bryderus ei fod wedi gadael y cyhoedd yn cwestiynu ai dim ond oherwydd prinder sgiliau y gellir cyflawni'r ganolfan ragoriaeth yn genedlaethol. Gofynnodd felly a ragwelwyd a fyddai'r swyddi i greu'r garfan ddiogelwch tomennydd yn cael eu hysbysebu'n fewnol neu'n allanol. Mynegodd bryder pe na bai'r cyllid yn parhau y byddai'r swyddi yn peidio â bod yn hyfyw. Anogodd pe bai hyn yn digwydd y dylai'r Cyngor barhau i ariannu'r swyddi er mwyn cadw'r arbenigedd. Dywedodd hefyd fod y cyhoedd yn parhau i fod yn anfodlon nad yw'r Awdurdod wedi cyhoeddi categorïau newydd o awgrymiadau, yn wahanol i Awdurdodau Lleol cyfagos a gofynnodd pryd y gallwn ddisgwyl i hyn ddigwydd.

Sicrhaodd yr Arweinydd ar y pwynt ariannu nad oedd yn bryderus ar unwaith na fyddai'r cyllid yn parhau gan Lywodraeth Cymru a dywedodd fodd bynnag y byddai'r Awdurdod yn parhau i ariannu'r swyddi pe bai angen hynny.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Rheng Flaen y bydd swyddi'n cael eu hysbysebu'n allanol mewn ymgais i ddenu sgiliau a phrofiad newydd i'r Awdurdod ac efallai y bydd angen gwneud cais am atodiad marchnad i ddenu ymgeiswyr. Dywedodd fod darpar ymgeiswyr mewnol eisoes yn cyflawni rolau hollbwysig. Daeth i'r casgliad bod angen hyn ar RhCT ar hyn o bryd, a dyma'r flaenoriaeth wrth symud ymlaen, os bydd y gwasanaeth yn trawsnewid i fod yn rhanbarthol yn y dyfodol yna bydd hyn yn cael ei adolygu.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

Cytuno i sefydlu Carfan Rheoli Diogelwch Tomennydd penodol o fewn Gwasanaethau Rheng Flaen i;

- Rheoli cyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomennydd) 1969,

- Rheoli cyfrifoldebau diogelwch y Cyngor fel tirlfeddiannwr nifer sylweddol o domennydd gwastraff glo ar draws RhCT.

105 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

106 CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL – Y DIWEDDARAF

Yn dilyn trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n cynnwys Gwybodaeth Eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD:** nodi cynnwys yr adroddiad

107 SYLFAEN CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL

Yn dilyn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD:**

1. Ymrwymo'n ffurfiol i weithredu'r cynnydd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer yr holl weithwyr gofal a gyflogir yn allanol o 1 Chwefror 2022
2. Cytuno bod y cynnydd blynyddol yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer unrhyw staff y Cyngor yr effeithir arnynt gan y cynnydd, yn cael ei weithredu am eleni o 1 Chwefror 2022; a
3. Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant (mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol) i ymgysylltu â darparwyr a gwneud y diwygiadau cytundebol angenrheidiol; a

Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i gymhwyso'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff sy'n gweithio i'r Cyngor y mae'r cynnydd yn effeithio arnynt.

108 DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Yn dilyn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD:**

Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn yr atodlen sydd wedi'i hatodi i'r Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

109 **Materion Brys**

Dim

**Y Cyng A Morgan
Cadeirydd.**

Tudalen wag



RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

CABINET

28TH FEBRUARY 2022

COUNCIL FEES AND CHARGES POLICY

2022/23

REPORT OF THE DIRECTOR OF FINANCE AND DIGITAL SERVICES

Author: Barrie Davies (01443) 424026

1. PURPOSE OF THE REPORT

1.1 The purpose of this report is to set out:

- Proposed revisions to Council fees and charges levels for the financial year 2022/23 (all to be effective from 1st April 2022 or as soon as is practicable thereafter); and
- Details of fees and charges decisions previously approved and included in the 2022/23 proposed Budget Strategy.

2. RECOMMENDATIONS

It is recommended that Cabinet:

- 2.1 Consider and, if appropriate, approve the proposed revised levels for all areas of the Council's fees and charges as set out at section 5 and detailed at Appendix 1.
- 2.2 Subject to fees and charges proposals being agreed, build the net budgetary impact (£45k for 2022/23) into the budget strategy proposals for consideration by Cabinet and Council as appropriate (paragraph 5.3).
- 2.3 Note the fees and charges decisions previously approved and included in the 2022/23 proposed Budget Strategy (paragraph 5.4 / Table 2).

3. REASON FOR RECOMMENDATIONS

- 3.1 To agree the Council's fees and charges for 2022/23, required as part of the annual budget setting process.

4. BACKGROUND

- 4.1 The Council provides a wide range of services across the County Borough and the ability to apply a charge is an important funding source to support the cost of maintaining service provision.
- 4.2 As part of the Council's Medium Term Financial Planning arrangements, fees and charges are reviewed regularly and, as part of this process, account is taken of funding levels received through the Local Government Settlement; the implications of decisions already approved; Corporate Plan priority areas; feedback received as part of the consultation process; and the level of inflation (i.e. the 12 month Consumer Prices Index (CPI) to December 2021 is 5.4%).
- 4.3 Where appropriate, agreement of the proposed revisions is now required in order to put in place the necessary steps for their implementation from 1st April 2022 (or as soon as is practicable thereafter).

5. REVIEW

- 5.1 Cabinet have reviewed fees and charges levels having regard to the information set out in Section 4 with the objective to continue to provide a comprehensive range of quality services at affordable prices.
- 5.2 The outcome of Cabinet's review is a proposed 2.50% standard increase to fees and charges (allowing for rounding adjustments as appropriate), with the Council absorbing the implications of not applying a standard uplift in line with the CPI rate of inflation. In addition, a number of areas are proposed to be subject to specific treatment, as set out in Table 1 below.

Table 1 – Summary of proposed fees and charges not subject to the proposed standard increase

Area of Charge	Proposed Exception
Leisure for Life – Membership	Freeze (in line with prior decision)
Meals on Wheels / Day Centre Meals	Freeze (in line with prior decision)
School Meals	Freeze (in line with prior decision)
Car Park Charges	Freeze
Summer and Winter Playing Fees (sports clubs)	Freeze
3G Pitch Hire	Freeze
Licenses (Hackney Carriage / Private Hire)	Freeze
Lido / Rhondda Heritage Park	Freeze
Pest Control Service Charges (Domestic / Public Health)	Freeze

- 5.3 The impact of the proposals set out in Table 1 would reduce income by £45k in a full year (compared to the Council's budget modelling for 2022/23).
- 5.4 In addition, a number of fees and charges decisions have previously been approved and accordingly have already been incorporated into the Council's 2022/23 proposed Budget Strategy. These are summarised in Table 2.

Table 2 – Summary of decisions already approved

Area of charge	Decision approved
Adult Social Care Charges (non-residential care services)	<ul style="list-style-type: none"> £100 per week in line with the current limit determined by Welsh Government (Cabinet 18th July 2017)
Fixed Penalty Notice (for environmental crimes)	<ul style="list-style-type: none"> Set at £100 with effect from 1st April 2018 (Cabinet 25th January 2018)
Houses in Multiple Occupation - Licenses	<ul style="list-style-type: none"> License fees set for the period 2019/20 to 2023/24 (Cabinet 14th February 2019)
Bereavement fees and charges for war veterans and service men and women	<ul style="list-style-type: none"> 25% reduction to all Council bereavement fees incurred by families of deceased war veterans and service men and women resident in Rhondda Cynon Taf (Delegated Decision 8th May 2019)

- 5.5 As Members will be aware, a pilot was approved at the [21st November 2019](#) Cabinet meeting to apply a reduced cremation fee for funeral directors offering a Direct / Simplicity cremation service in Rhondda Cynon Taf. Following consideration of the results of the pilot at the [29th April 2021](#) Cabinet meeting, it was agreed that the provision of a Direct / Simplicity cremation service would continue in 2021/22 at the rate applied for the pilot scheme and, for 2022/23 onwards, the fee level would be determined as part of the annual fees and charges process.
- 5.6 For completeness, a full list of all fees and charges across all Council services can be accessed [here](#), now including the proposed level of charges for 2022/23.

6. EQUALITY AND DIVERSITY AND SOCIO-ECONOMIC DUTY IMPLICATIONS

- 6.1 Due regard has been given to the Council's public sector equality duties under the Equality Act 2010, namely the Public Sector Equality Duty and Socio-Economic Duty.

6.2 An Equality Impact Assessment has been completed and concluded that the recommendations set out in the report are in line with the above legislation.

7. WELSH LANGUAGE IMPLICATIONS

7.1 There are no Welsh language implications as a result of the recommendations in this report.

8. CONSULTATION

8.1 A comprehensive budget consultation exercise has been undertaken in relation to the 2022/23 budget requirements.

8.2 The proposals included in this report do not require any specific additional consultation exercises to be undertaken.

9. FINANCIAL IMPLICATIONS

9.1 As outlined in section 5 of the report, the proposed revisions to fees and charges levels for 2022/23 would reduce income by £45K in a full year if Cabinet decide to take forward the proposed recommendations (as compared to the Council's budget modelling for 2022/23).

- Provide better pedestrian routes and create spaces that that people can enjoy, and which businesses can use.
- Create spaces for social and cultural events.
- Develop a stronger digital presence and brand.

7. **PROGRESS UPDATE – KEY SITES AND PREMISES**

7.1 The sites detailed in paragraphs 7.2 to 7.7 have been identified in the draft Placemaking Plan as key areas that will contribute to the economic growth

of the town centre. Supported by government investment, progress is already being made towards securing a sustainable future for these prominent sites.

- 7.2 **Former Bingo Hall / Angharads Nightclub** – Funded by £2.2m investment from the Council and Welsh Government, these vacant and dilapidated buildings were acquired in March 2020 and subsequently demolished in August 2021 leaving the site development ready.
- 7.3 Expert advice has been commissioned to explore a range of commercial uses to strengthen the viability of the town together with opportunities for new distinctive architecture that builds on the town's unique assets and strengthens its sense of place.
- 7.4 Advice received clearly supports a hotel-led development with retail uses at the lower ground floor in this prominent location and a market testing exercise has evidenced that there are developers and operators interested in taking this forward.
- 7.5 Subject to approval, a formal procurement exercise will be undertaken over the next 6 months to secure a Development Partner to take forward a hotel-led development on site. The Council will work closely with potential Development Partners to ensure the best outcome for the town centre.
- 7.6 **96-99a and 100-102 Taff Street** – In March 2021, these vacant buildings formerly occupied by Marks & Spencer, Dorothy Perkins and Burtons, were acquired with investment from the Council and Welsh Government.
- 7.7 Situated opposite the former Bingo Hall site and adjacent to Ynysangharad War Memorial Park, these vacant properties provide an exciting development opportunity.
- 7.8 Early design work commissioned to explore opportunities for the site demonstrate that the properties provide a great opportunity to open the town centre towards the river and the park and to provide a range of leisure, commercial and retail uses in this location. The proposed public consultation presents a timely opportunity to seek views on the early proposals shown at **Appendix 2**.
- 7.9 The property formerly occupied by Marks & Spencer, being vacant since 2015 and suffering from a lack of maintenance is in poor condition, requiring extensive refurbishment and upgrading works both internally and externally. The property will continue to deteriorate without significant expenditure. Structural Surveys have been undertaken and the building is deemed to be beyond economic repair and consideration is now needed regarding demolition to maximise the redevelopment opportunity in this prime location. Whilst the Burtons/Dorothy Perkins building appears to have been maintained in relatively good condition by its previous owners, the

building itself is of poor architectural quality and detrimental to the character of the High Street and to the integrity of the Conservation Area within which it is located. As such it is recommended that the Marks & Spencer and Dorothy Perkins/Burtons buildings are demolished to allow future redevelopment of the whole site, shaped by the public engagement sought by this report and through the process of securing all necessary planning and other consents.

8. EQUALITY AND DIVERSITY IMPLICATIONS / SOCIO-ECONOMIC DUTY

- 8.1 An Equality Impact Assessment screening form has been prepared for the purpose of this report. It has been found that a full report is not required at this time. This will however be revisited following the public consultation exercise.

9. WELSH LANGUAGE IMPLICATIONS

- 9.1 The Placemaking Plan will be subject to a Welsh Language Impact Assessment and an update will be provided following the public consultation.

10. CONSULTATION / INVOLVEMENT

- 10.1 No consultation has taken place at this stage; however the report proposes that a public consultation exercise on the draft Placemaking Plan, with a particular focus on the redevelopment of the former Marks & Spencer and Dorothy Perkins/Burtons stores, is undertaken over a 4 week period.

11. FINANCIAL IMPLICATION(S)

- 11.1 There are no financial implications in respect of the development of the draft placemaking plan but as projects are developed, the financial implications will be fully assessed and reported as appropriate.
- 11.2 Subject to approval of this report, funding will be sought from Welsh Government to demolish the former Marks & Spencer/Dorothy Perkins/Burtons buildings. This will take the form of a grant application to the Welsh Government's Transforming Towns programme for the maximum 70% contribution towards the associated costs. The balance will be funded from existing Prosperity and Development budgets.
- 11.3 Costs associated with the procurement process for securing a development partner for the hotel-led development will be funded from existing

resources. The financial implications of the actual development will be subject to a further report.

12. LEGAL IMPLICATIONS OR LEGISLATION CONSIDERED

- 12.1 There are no current legal implications, but as the opportunities are developed, the legal implications will be fully assessed.

13. LINKS TO THE CORPORATE AND NATIONAL PRIORITIES AND THE WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS ACT

- 13.1 The draft Placemaking Plan has been developed in accord with the Council's Corporate Plan 2020-2024 'Making a Difference' which highlights that its town centres will be vibrant, thriving places where people wish to live, work and socialise and with Welsh Governments 'Town Centres First' approach, aimed at putting the health of town centres at the heart of the decisions taken by the public sector, businesses and communities.
- 13.2 All proposed developments within the draft plan will contribute to the goals of the Well Being of Future Generations Act. In particular, the economic and environmental well-being of Wales, supporting the delivery of a prosperous Wales, a more resilient Wales and a Wales of cohesive communities.

14. CONCLUSION AND NEXT STEPS

- 14.1 The draft placemaking plan identifies a framework to continue to deliver significant new investment to Pontypridd town centre that responds to the unique character of the town and the issues and opportunities that are present. The Placemaking plan will succeed the current Regeneration Framework for Pontypridd 2017 – 2022 'Pivotal Pontypridd – Delivering Growth'.
- 14.2 The successful delivery of the plan will result in transformational change for Pontypridd town centre. A coordinated effort between the public, private and third sectors will be required to realise the scale of opportunity in the town centre to ensure we can successfully deliver a dynamic, diverse and sustainable town centre where people are proud to live, work and visit.
- 14.3 Critical next steps for consideration are:

- Consultation and public engagement on the overarching Pontypridd Placemaking Plan including engagement on early ideas for the former Marks & Spencer/Dorothy Perkins/Burtons area.
- Agreement to seek funding to demolish the vacant Marks & Spencer/Dorothy Perkins/Burtons buildings due to their dilapidated and structural state.
- Agreement to move to the formal procurement stage for a development partner to deliver a hotel on the site of the former Bingo Hall/High Street/Sardis Road.

Other Information:-

***Relevant Scrutiny Committee
Finance & Performance***

***Contact Officer:
Simon Gale, Director of Prosperity and Development (01443 281114)***

LOCAL GOVERNMENT ACT 1972

AS AMENDED BY

THE LOCAL GOVERNMENT (ACCESS TO INFORMATION) ACT 1985

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

CABINET

28 FEBRUARY 2022

PONTYPRIDD TOWN CENTRE – DRAFT PLACEMAKING PLAN

**REPORT OF THE DIRECTOR FOR PROSPERITY AND DEVELOPMENT IN
DISCUSSIONS WITH THE RELEVANT PORTFOLIO HOLDER (COUNCILLOR
ROBERT BEVAN)**

Item:

Background Papers

Contact Officer:

Simon Gale, Director of Prosperity and Development (01443 281114)



CYNLLUN CREU LLEOEDD CANOL TREF PONTYPRIDD

Chwefror 2022

Paratowyd gan: Liam Hopkins, Francesca Visione a James Alexander Foxhall
 Cyfeiriad: The Urbanists, Y Chwarter Creadigol, 8A Arc d Morgan,
 Caerdydd, CF10 1AF, Y Deyrnas Unedig
 E-bost: James.brown@theurbanists.net
 E-mail: Email:
 Gwefan: www.theurbanists.net

Dyddiad cyhoeddi	01 02 22
Statws lluniad	
Adolygiad	9
Awdur	LH & FV
Gwiriwyd gan	LH & JD

Mae'r holl gynlluniau yn y ddogfen hon yn cael eu hatgynhyrchu o'r Arolwg Ordians gyda chaniatâd rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (C) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad/achos sifil. Trwydded Rhif 100054593.

Cynhyrchwyd gan:

Ar Ran:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



0.0	CRYNODEB GWEITHREDOL
1.0	CYFLWYNIAD
2.0	PONTYPRIDD YN 2035
3.0	CYNLLUN CREU LLEOEDD
4.0	YMYRIADAU ALLWEDDOL
5.0	SYMUDIADAU A CHYSYLLTIADAU
6.0	CASGLIAD



Golygfa dros ganol tref Pontypridd

0.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

Tudalen 155

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Llywodraeth Cymru, Tasglu'r Cymoedd a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'n darparu cynllun creu lleoedd ar gyfer Pontypridd sy'n seiliedig ar uchelgais a rennir ar gyfer y dref a'i r l o fewn y Brifddinas-Ranbarth.

Mae canol trefi ledled y DU wedi wynebu cyfres o heriau sylweddol i'w hyfywedd economaidd dros y degawd diwethaf, sydd wedi dwysu ymhellach yn ddiweddar o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Nid yw canol tref Pontypridd yn wahanol i'r rhelyw, ond rhoddwyd pwysau pellach ar y dref a'i busnesau gan y llyfogydd dinistriol a ddigwyddodd yn ystod gaeaf 2020.

Er gwaethaf yr heriau a wynebir, mae sail i fod yn optimistaidd. Bu canol tref Pontypridd yn hynod wydn drwy gydol y cyfnod anodd hwn ac mae bellach mewn sefyllfa dda i ymateb a symud y tu hwnt i'r heriau.

Cyn bo hir, bydd canol y dref â chysylltedd nas rhagwelwyd gyda'r Brifddinas-Ranbarth ehangach, ac mae eisoes yn ffocws buddsoddiad masnachol newydd trwy ddarpariaeth llwyddiannus datblygiad Llys Cadwyn. Mae'r cynllun creu lleoedd yn ceisio adeiladu ar y sylfeini hyn a darparu fframwaith ar gyfer cyflenwi datblygiad a buddsoddiad newydd pellach a all helpu i wella ffyniant y dref, gwella lleoliad y drefwedd a'r dirwedd a'i gwneud yn fwy gwydn i newid yn y dyfodol.

Mae'r cynllun creu lleoedd yn ddogfen strategaeth yn seiliedig ar y cyddestun polisi cynllunio ac adfywio lleol presennol ac mae'n datblygu llawer o'r mentrau a nodir yn y dogfennau allweddol.

Noda'r cynllun creu lleoedd gyfres o uchelgeisiau craidd i arwain buddsoddiad yn y dyfodol i'r dref a noda hefyd ysgogwyr dylunio i sicrhau bod datblygiadau newydd yn bodloni'r uchelgeisiau.

Uchelgeisiau craidd:

1. Cyrchfan busnes.
2. Lle gwyh i fyw.
3. Yn gysylltiedig ac yn hygyrch.
4. Tref werdd ar lan y dŵr.
5. Treflun unigryw.
6. Cyrchfan ddiwylliannol a chymdeithasol.
7. Tref gynhwysol a gwydn.

Ysgogwyr Dylunio:

1. Datblygiad.
2. Cysylltedd.
3. Treflun.
4. Seilwaith Gwyrdd.
5. Diwylliannol a chymdeithasol.
6. Tir y cyhoedd.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi cyfres o ymyriadau mewn ardaloedd gofodol allweddol o'r dref a fyddai'n cyflawni'r uchelgeisiau ac yn mynd i'r afael â'r ysgogwyr dylunio.

Nodwyd pum ardal ofodol allweddol ar gyfer canol y dref a fydd yn gweithredu fel meysydd ffocws penodol ar gyfer buddsoddi. Nodwyd y meysydd hyn fel:

1. Porth Deheuol.
2. Craidd Canol y Dref.
3. Y Farchnad.
4. Porth y Gogledd.
5. Parc Coffa Ynysangharad.

Paratowyd dadansoddiad creu lleoedd i nodi'r uchelgeisiau craidd, ysgogwyr dylunio, ardaloedd gofodol ac ymyriadau. Gweler crynodeb o'r materion a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd o'r dadansoddiad hwn yn y cynllun creu lleoedd.

Bydd y cynllun creu lleoedd yn cael ei ddefnyddio a'i roi ar waith yn y tymor byr, canolig a hir. Bydd ei gyflwyno fesul cam fel hyn yn sicrhau bod y cynllun yn sicrhau newid cadarnhaol ar unwaith, ond hefyd yn sicrhau twf a buddsoddiad yn gyson dros gyfnod cyflenwi realistig.

Mae'r cynllun creu lleoedd yn dangos faint o gyfleoedd sydd ar gael yn y dref. Er mwyn gwireddu'r cyfle, bydd angen curadu marchnad breswyl, swyddfeydd, hamdden a manwerthu lwyddiannus a ategir gan greu lleoedd cryf a rheolaeth weithredol ar ganol tref. Bydd hefyd angen gwneud y dref yn wydn rhag llyfogydd yn y dyfodol. Mae angen ymdrech gydlynol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i wireddu'r nifer o gyfleoedd sydd ar gael yng nghanol y dref.

Mae trafndiaeth yn ystyriaeth allweddol i ganol y dref ac mae cyfres o'r prosiectau a nodir yn y cynllun creu lleoedd naill ai'n ymwneud a gwelliannau trafndiaeth neu'n gofyn am gyflawni addasiadau llawn i'r seilwaith trafndiaeth. Bydd y prosiectau hyn yn cael eu datblygu yn unol Chanllawiau Arfarnu Trafndiaeth Cymru.

1.0 CYFLWYNIAD

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Llywodraeth Cymru, Tasglu'r Cymoedd a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'n darparu cynllun creu lleoedd ar gyfer Pontypridd sy'n seiliedig ar uchelgais a rennir ar gyfer y dref a'i r l o fewn y Brifddinas-Ranbarth.

Mae gan Bontypridd leoliad strategol rhagorol yng nghanol y Brifddinas-Ranbarth. Fe'i lleolir 12 milltir i'r gogledd o Gaerdydd ac mae'r dref mewn man strategol ar yr A470 a thair o reilffyrdd craidd y cymoedd. Hefyd, mae Pontypridd yn dref sy'n newid. Bydd cysylltedd yn cael ei drawsnewid drwy Fetro De Cymru, a fydd yn arwain at 12 tr n yr awr i'r ddau gyfeiriad rhwng Pontypridd a Chaerdydd, tra bydd canfyddiadau o'r farchnad eiddo masnachol yn cael eu hailwampio erbyn cwblhau datblygiad Llys Cadwyn.

Gyda'r buddsoddiad arfaethedig, mae gan ganol y dref ddyfodol disglair, ac mae uchelgeisiau mawr ar ei gyfer. Mae'r cynllun hwn yn darparu'r fframwaith i gyflawni'r uchelgais.

Mae'r cynllun creu lleoedd yn darparu gweledigaeth feiddgar ar gyfer canol y dref, ac mae'n nodi ymyriadau y gellir eu gweithredu'n gyson i ddatgloi potensial y dref a sicrhau ei bod yn ganolfan economaidd, cymdeithasol a diwylliannol allweddol ar gyfer y Brifddinas-Ranbarth. Bydd angen ymdrech gydgyssylltiedig rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i wireddu'r cyfle.

Mae trafndiaeth yn ystyriaeth allweddol i ganol y dref ac mae cyfres o'r prosiectau a nodir yn y cynllun creu lleoedd naill ai'n ymwneud â gwelliannau trafndiaeth neu'n gofyn am gyflawni addasiadau llawn i'r seilwaith trafndiaeth. Bydd y prosiectau hyn yn cael eu datblygu yn unol â Chanllawiau Arfarnu Trafndiaeth Cymru.


Roedd canol tref Pontypridd yn destun llifogydd sylweddol ym mis Chwefror 2020, ond cyflwynodd dyfodiad y pandemig COVID-19 yn ystod gaeaf 2020 heriau annisgwyl i ganol trefi ledled y DU. Mae'r cynllun creu lleoedd hwn wedi cymryd y digwyddiadau hyn i ystyriaeth, a bydd yn helpu i sicrhau bod Pontypridd yn dod yn fwy gwydn i heriau'r dyfodol.

Mae gan Bontypridd dreffun unigryw a lleoliad tirwedd heb ei ail, sy'n cynnwys dwy afon eiconig a pharc hanesyddol. Bydd y nodweddion unigryw hyn yn cael eu defnyddio i sefydlu cyrchfan sy'n lle gwych i **weithio, byw ac ymweld ag ef**.

Paratowyd y cynllun creu lleoedd yn unol ag egwyddor genedlaethol Canol Trefi yn Gyntaf: *Rhaid sicrhau bod dyfodol llewyrchus i ganol ein trefi/dinasoedd yn un o'r ysgogwyr allweddol. Gallwn gynyddu nifer yr ymwelwyr a hygyrchedd a gwneud cyfraniadau hanfodol i fywiogrwydd a chynaliadwyedd canol ein trefi drwy leoli cyrrff cyhoeddus, sefydliadau partner a gwasanaethau/cyfleusterau cysylltiedig ynddynt. Hwn yw'r man cychwyn ar gyfer unrhyw fuddsoddiad newydd a dim ond pan fydd tystiolaeth gymhellol bod angen/cyfiawnhad dros hyn y dylid gwneud penderfyniadau i leoli rhywle arall. Dylai penderfyniadau cymesur a gwerth gorau ynghylch lleoliad gynnwys ystyried yr effaith ar ganol trefi, cydlyniant cymdeithasol, hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus, yr amgylchedd a newid hinsawdd*".



Golygfa o'r awyr o ganol tref Pontypridd gyda Llys Cadwyn yn y blaendir



- Esboniad:
- Prif Ffyrdd
 - - - Rheilffordd
 - Gorsaf Drenau
 - Dinas/Tref
 - Dŵr
 - Parc

Cynllun lleoliad rhanbarthol

Ystradgynlais

Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog

MERTHYR TUDFUL

Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog

Pontardawe

Castellnedd

Parc Coedwig
Afan

PONTYPRIDD

Cwmbran

Abertawe

Maesteg

A470

CAERFFILI

Casnewydd

M4

Pen-y-bont ar
Ogwr

M4

CAERDYDD

Porthcawl

Barri

Weston-Super-Mare

1.1 CYFLWYNIAD: Y MOMENTWM PRESENNOL

Mae'r Cyngor wedi cwblhau ystod o weithgarwch adfywio sylweddol yn y dref yn y gorffennol gan gynnwys:

Cynllun blaenllaw **Llys Cadwyn**, a gefnogwyd drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, ac a gwblhawyd yn 2020. Gan ddisodli hen ganolfan siopa Dyffryn Taf o'r 1960au ac adfywio safle diffaith ym mhorth gogleddol y dref, mae'r datblygiad defnydd cymysg hwn yn cynnwys swyddfeydd Gradd A, cyfleusterau bwyty/caffi a chanolfan gymunedol sy'n cynnwys llyfrgell yr 21ain Ganrif, mynediad i wasanaethau'r Cyngor, campfa o'r radd flaenaf a stiwdios hamdden.

Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys promenâd ar lan yr afon sy'n cysylltu â phont droed newydd ac yn cysylltu'r safle dros Afon Taf â Pharc Coffa Ynysangharad.

Roedd Lido Cenedlaethol Cymru, Lido Ponty, yn cynnwys adfer lido adfeilliedig rhestredig Gradd II o'r 1920au a'i droi'n atyniad rhanbarthol i ymwelwyr. Cwblhawyd y gwaith yn 2015 gyda chefnogaeth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Cadw. Mae'r cynllun wedi llwyddo i gadw cydbwysedd rhagorol rhwng adferiad a chadwraeth sensitif ar y naill law, ac ag adeiladau newydd celfydd a chyfoes mewn arddull art deco ar y llaw arall.

Adferwyd nodweddion gwreiddiol fel y ciwbiclau newid pren ac adeiladau mynediad, gan gynnwys gatiâu tro haearn a'r swyddfa docynnau wreiddiol, a'u hategu gan gaffi a chanolfan ymwelwyr newydd. Ailfodelwyd y pwll gwreiddiol i ffurfio tri phwll newydd, a chawsant eu gwella ymhellach trwy ddarparu cyfleuster chwarae antur sych o ansawdd uchel.

Bu'r buddsoddiad adfywio, wedi'i dargedu drwy **Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth**

Cymru, un a ddyfarnwyd rhwng 2014 a 2017, o gymorth i'r Cyngor a'i bartneriaid gyflawni cyfres o welliannau ffisegol a chymdeithasol cynaliadwy â ffocws gyda'r nod o wella hyfywedd economaidd. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn r l y dref yn yr economi leol a rhanbarthol a lleihawyd y lefelau amddifadedd yn y cymunedau hynny a wasanaethir. Roedd y prosiectau allweddol yn cynnwys

Y Rhaglen Gwella Treflun a gyfrannodd at adfywio 10 eiddo yng nghanol y dref trwy weithio gyda pherchnogion a busnesau i ddarparu adeiladau busnes hyfyw a deniadol o ansawdd uchel. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar welliannau mewnol ac allanol, gan ddod â 1900 metr sgwâr o arwynebedd llawr gwag yn ôl i ddefnydd i ddarparu ar gyfer busnesau a swyddi newydd a phresennol.

Dan y fenter 'O'r Gwag i'r Hyfyw: Cartrefi Uwchben Siopau' gallai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig brydlesu ac adnewyddu lleoedd gwag uwchben siopau, i ddarparu 24 o gartrefi fforddiadwy newydd yn y farchnad dai, lleoedd nad oeddent yn cael eu defnyddio gynt.

Yn 2013, cwblhaodd y Cyngor **gynllun gwella tir cyhoeddus mawr** ledled canol y dref a oedd yn cynnwys arwynebau priffyrdd newydd, palmentydd o ansawdd uchel, celfi stryd a goleuadau pensaernïol ym mhob rhan o'r brif dramwyfa siopa. Mae rhagor o brosiectau adfywio ar y gweill, yn cynnwys:

Prosiect uchelgeisiol i ailddatblygu **YMCA Pontypridd** a fydd yn dod â'r lleoliad hanesyddol o 1910 yn l i ddefnydd drwy greu cyfleuster defnydd cymysg o'r radd flaenaf. Bydd ailddyluniad sylweddol o'r adeilad yn ei wneud yn gwbl hygyrch, gan ad-drefnu'r defnydd o fannau mewnol, creu cyfleusterau newydd a gwell gan gynnwys swyddfeydd a manau gwaith ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau a chyfres o gyfleusterau celfyddydol pwrpasol.

Gyda chymorth cyllid Trawsnewid Trefi drwy Lywodraeth Cymru, prynodd y Cyngor yr hen **Neuadd Bingo a chlwb nos Angharad a hen adeiladau M&S a Dorothy Perkins/Burtons**, pob un ohonynt yn wag ac mewn cyflwr adfeilliedig, ac yn cael effaith negyddol iawn ar y treflun a chymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae ailddatblygu'r safleoedd hyn yn sylfaenol i dwf a llwyddiant y dref yn y dyfodol, a gallai'r modd y gwiredir hyn gynnwys gwahanol ffurfiau a defnyddiau. Bydd pob opsiwn dichonadwy yn cael ei archwilio i sicrhau'r canlyniad gorau i'r dref.

Bydd prosiect ailddatblygu Canolfan Gelf y Miwri yn diogelu treftadaeth yr adeilad, gan ei sefydlu fel lleoliad celfyddydol a diwylliannol rhanbarthol unigryw ar gyfer yr 21ain ganrif. Bydd yr adeilad rhestredig Gradd II o arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol, sydd wedi bod ar gau ers diwedd 2018, yn cael ei drawsnewid yn lleoliad diwylliannol defnydd cymysg cwbl hygyrch a fydd yn cynnig cerddoriaeth, sinema a theatr gyda chyfleusterau newydd a hyblyg i wneud y defnydd mwyaf posibl o ofod. Bydd hyn yn rhoi lle gwych i amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, a chymunedol.

Gyda chymorth rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd, gwnaed gwaith ym **Mharc Coffa Ynysangharad**, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, i adnewyddu'r holl brif lwybrau troed a llwybrau ar draws y parc yn llawn, ynghyd â gosod goleuadau stryd LED wedi'u huwchraddio trwy gyfrwng colofnau goleuo newydd, gan ddarparu amgylchedd diogel a chyfforddus i holl ddefnyddwyr y parc.

Mae gwelliannau pellach ar y gweill gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru i wella ac adnewyddu nodweddion treftadaeth y parc hanesyddol. Mae gwelliannau'n cynnwys adnewyddu ardaloedd allweddol gan gynnwys y bandstand, yr ardd isel a'r ardal greigiog, arwyddion a dehongliadau newydd, a darparu canolfan hyfforddi a gweithgareddau newydd.



Adfer Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru




Canolfan Gelf y Miwni, lleoliad diwylliannol a digwyddiadau



Bandstand wedi'i adfer ym Mharc Coffa Ynysangharad

Esboniad:

- Ardal Astudiaeth
- Ffyrdd
- Ffordd fynediad gyfyngedig i gerbydau
- Rheilffordd
- Llwybr Beicio Cenedlaethol
- Man gwyrdd
- Afon
- Campws y Brifysgol



Cynllun lleoliad canol tref Pontypridd

1.2 CYFLWYNIAD: BETH YW CREU LLEOEDD?

BETH YW CREU LLEOEDD?

Mae Creu Lleoedd yn ddull hollgynhwysol o wella sut mae lle yn edrych, yn gweithredu ac yn cael ei brofi. Mae creu lleoedd yn gofyn am edrych ar le yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar rannau digyswllt. Yn y modd hwn, mae creu lleoedd yn agor sut mae lle yn cael ei weld ac yn atal lle rhag cael ei ystyried trwy un lens.

Yng Nghymru, mae creu lleoedd yn hollbwysig wrth gynllunio ar gyfer datblygiad a lleoedd, gyda Pholisi Cynllunio Cymru yn ei nodi fel y broses ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy a chynyddu llesiant.

Mae "creu lleoedd" yn ddull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiad lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a manau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf".

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11

Mae gan Gymru hefyd Siarter Creu Lleoedd sy'n nodi chwe egwyddor i'w hyrwyddo drwy greu lleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys: pobl a chymuned; lleoliad; symudiad; cymysgedd o ddefnyddiau; parth cyhoeddus; a hunaniaeth.

Mae'r cynllun creu lleoedd yn cofleidio dull Polisi Cynllunio Cymru a'r Siarter Creu Lleoedd.

BETH YW'R CYNLLUN CREU LLEOEDD?

Mae'r cynllun creu lleoedd yn arf a fydd yn cael ei ddefnyddio i arwain y broses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys: datblygu, gwella adeiladau, seilwaith a rheoli lleoedd.

Mae'r cynllun creu lleoedd yn nodi ffordd o sicrhau buddsoddiad newydd i ganol tref Pontypridd sy'n ymateb i gymeriad unigryw'r dref a'r problemau a'r cyfleoedd sy'n bodoli. Mae'r cynllun yn cymryd golwg ar y cyfan o'r manau allweddol sy'n rhan o ganol y dref ac yn cynnig cyfres o brosiectau pwrpasol a fyddai'n cryfhau'r ymdeimlad o le ym mhob un ac yn eu cyfuno i adfywio'r dref gyfan.

Paratowyd y cynllun creu lleoedd gan The Urbanists, Mott MacDonald ac Alder King. Mae Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf a Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru fel cleient hefyd wedi llunio'r cynllun drwy arbenigedd a gwybodaeth gyfunol ei swyddogion.

Felly paratowyd y cynllun creu lleoedd ar y cyd ac mae'r cynigion yn adlewyrchu dull amlddimensiwn o gynllunio, dylunio a rheoli datblygiad a lleoedd.

Bydd cynllun cyflenwi yn cael ei baratoi i helpu i siapio ymhellach y syniadau a'r cyfleoedd a gyflwynir yn y cynllun creu lleoedd, a denu'r buddsoddiad sydd ei angen i'w ddarparu.

Yn ogystal ag ymateb i bolisi cenedlaethol, mae'r cynllun creu lleoedd yn adeiladu ar y cyd-destun polisi datblygu ac adfywio lleol. Mae trosolwg o leoliad y cynllun creu lleoedd o fewn y fframwaith polisi lleol i'w weld gyferbyn.

Mae'r cynllun creu lleoedd wedi'i strwythuro fel a ganlyn:





Mae cynllun gorffenedig Llys Cadwyn wedi trawsnewid y fynedfa ogleddol i ganol y dref, gan greu ymdeimlad newydd unigryw o le a darparu sylfaen ar gyfer lleoliad newydd ger glan yr afon.

1.3 CYFLWYNIAD: CANOL TREF PONTYPRIDD HEDDIW

Er mwyn helpu i nodi'r uchelgeisiau a'r prosiectau ar gyfer canol y dref, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol i nodi'r problemau a'r cyfleoedd y mae canol tref Pontypridd yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Cynhwysir y dadansoddiad a wnaed fel atodiad i'r cynllun creu lleoedd drwy themâu datblygu a buddsoddi, symud, yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol. Crynhoir isod y materion allweddol a nodwyd.

Symudiadau

- Mae'r orsaf fysiau a'r orsaf reilffordd wedi'u lleoli ym mhen draw'r dref. Mae angen gwell integreiddio rhwng dulliau teithio a gwell arwyddion rhwng y ddwy orsaf.
- Ar hyn o bryd, mae symudiad traffig yn dominyddu mynedfeydd allweddol i ganol y dref a llwybrau allweddol yn y canol.
- Mae'r cysylltiadau o'r dref i barc Coffa Ynysangharad wedi'u gwella gyda'r bont newydd o Lys Cadwyn ac adfer mynediad yr hen bont. Gellid gwella'r cysylltiadau i gerddwyr o'r gorllewin-ddwyrain drwy'r dref i adeiladu ar y gwelliannau hyn.
- Mae cyfleusterau teithio llesol cyfyngedig yn y dref ac mae cysylltiadau teithio llesol â'r dirwedd o amgylch yn wael.
- Nid yw'r meysydd parcio ceir wedi'u lleoli'n strategol i wasanaethu canol y dref.

Amgylchedd Adeiledig

- Prin yw'r ymdeimlad o gyrraedd ac amgyffred wrth y porth deheuol i ganol y dref - y mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn mewn unrhyw ailddatblygu yn y dyfodol.
- Mae adeiladau o ansawdd gwael ym mynedfeydd y dref ac mewn lleoliadau allweddol o fewn y dref sy'n gwanhau'r ymdeimlad o gyrraedd ac amgyffred, ac y mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn mewn unrhyw ailddatblygu yn y dyfodol.
- Mae gan ganol y dref hierarchaeth o strydoedd a gofod y gellid eu hadfywio i ddarparu amgylchedd gwell i gerddwyr a beicwyr.

- Mae gan ganol y dref nifer o adeiladau treftadaeth, a allai ddod yn nodweddion nodedig o fewn y treflun pe baent yn cael eu hadnewyddu.
- Gellid sicrhau mynediad gweledol a ffisegol gwell i lan yr afon trwy gyflwyno datblygiad newydd.
- Mae amgylchedd ymyl yr afon yn wael oherwydd bod ffyrdd, iardiau gwasanaeth a meysydd parcio mewn manau strategol, ond gellid gwella hyn yn raddol trwy ailddatblygu adeiladau allweddol ar Stryd Taf a chael datblygiadau newydd mewn lleoliadau allweddol ar yr afonydd.

Amgylchedd Naturiol

- Mae'r llifogydd niweidiol diweddar a achoswyd gan Storm Dennis yn cadarnhau bod y perygl llifogydd o afonydd y Taf a'r Rhondda ar draws rhannau helaeth o Bontypridd, yn sylweddol ac arwyddocaol. Mae hyn yn golygu bod angen datblygu strategaeth lliniaru llifogydd gynhwysfawr yn brydlon, er mwyn atal difrod yn y dyfodol.
- Mae angen manteisio ar leoliad gwyrdd Parc Coffa Ynysangharad ac afonydd y Taf a'r Rhondda.
- Mae angen plannu mwy o goed a sefydlu seilwaith gwyrdd yng nghanol y dref a gellid eu defnyddio i ddarparu systemau draenio cynaliadwy sy'n lliniaru'r perygl o lifogydd a gwella gwytnwch hinsawdd.
- Gellid rheoli'r seilwaith gwyrdd ym Mharc Coffa Ynysangharad yn well er mwyn gwella ei leoliad ar lan yr afon.

Datblygu a Buddsoddi

- Mae'r porth deheuol i ganol y dref yn wael ar hyn o bryd, ond gellid ei ailddatblygu i greu cyfleoedd masnachol newydd a mynedfa nodedig a chroesawgar i ganol y dref o'r orsaf reilffordd.
- Mae cyfle i sefydlu porth gogleddol sy'n integreiddio â datblygiad Llys Cadwyn, ac sy'n darparu ar gyfer integreiddio dulliau trafndiaeth.
- Mae Marchnad Dan Do Pontypridd yn gyfle allweddol. Cyflawnwyd buddsoddiad allweddol yn y 18 mis diwethaf, un y gellir adeiladu arno i greu cyrchfan hamdden a manwerthu amrywiol.
- Mae adeiladau treftadaeth allweddol o fewn y dref y gellid eu hailddefnyddio i ddod yn gyrchfannau diwylliannol a chymdeithasol.
- Mae cyfle i wneud defnydd newydd o eiddo ar draws y canol a throi lloiau uwch adeiladau yn ofod masnachol a defnydd cymysg.
- Gellid cyflawni datblygiad sylweddol trwy ailddatblygu meysydd parcio mewn lleoliadau allweddol.
- Mae gan y dref leoliad ar lan y dŵr nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, ond mae'n addas i ddarparu cyfleoedd hamdden newydd a all arallgyfeirio economi'r nos.
- Byddai canol y dref yn elwa o frand digidol a strategaeth tref glyfar.

1.4 CYFLWYNIAD: TRAFNIDIAETH A MYNEDIAD STRATEGOL

Mae lleoliad strategol Pontypridd yn y Brifddinas-Ranbarth yn fantais allweddol a bydd y buddsoddiad arfaethedig yn gwella ei gysylltedd. Nodir isod grynodedb o'r cyfleoedd trafniadaeth a mynediad strategol ar gyfer Pontypridd.

Mae Pontypridd yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd ar hyn o bryd yn elwa ar welliannau sylweddol i wasanaethau rheilffyrdd o ganlyniad i gynnig Metro De Cymru a'r Fargen Ddinesig. O ganlyniad i'r buddsoddiad a raglennwyd, bydd cysylltiad trenau cryf â Phontypridd (12 i bob cyfeiriad bob awr) a bydd yn elwa o gerbydau gwell ac amseroedd teithio byrrach i Gaerdydd a'r rhanbarth ehangach.

Bydd gwell cysylltedd rheilffordd â Phontypridd yn gatalydd i ganol y dref dderbyn effeithiau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cadarnhaol drwy wneud ardaloedd o dir yn fwy hygyrch i fuddsoddwyr allanol. Felly mae cynyddu integreiddiad canol y dref a'r orsaf reilffordd yn hanfodol i'r cynllun creu lleoedd.

Mae Pontypridd hefyd yn elwa o fynediad uniongyrchol i gysylltiadau priffyrdd strategol i'r rhanbarth ehangach ar hyd yr A470, A4058, A4223 a'r A473. Fodd bynnag, mae presenoldeb rhai o'r ffyrdd hyn o fewn a gerllaw canol y dref yn cyflwyno heriau i ymarferoldeb canol y dref.

Mae angen ystyried yr A4058 yn benodol, gan mai'r ffordd hon yw'r cysylltiad strategol i gymoedd y Rhondda ac mae'n mynd drwy'r porth deheuol i ganol y dref. Yn y lleoliad hwn, mae'r ffordd yn gwasanaethu cysylltiadau priffyrdd lleol ac felly mae'n cynnwys ardal sylweddol o seilwaith priffyrdd. Hefyd, mae arni draffig trwm yn ystod oriau brig. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn datgysylltu'r orsaf reilffordd o ganol y dref, yn creu ymdeimlad gwael o gyrraedd y dref ac amgylchedd gwael i gerddwyr.

Mae amgylchedd gwael i gerddwyr ac ymdeimlad o gyrraedd hefyd yn bresennol ar yr A4223 (Ffordd Gelliwastad, Stryd Morgan a Stryd y Bont), yng ngorllewin a gogledd y dref.

Felly, mae mynd i'r afael â'r effaith y mae'r ffyrdd strategol hyn yn ei chael ar y dref yn un o ofynion allweddol y cynllun creu lleoedd a nodwyd nifer o ymyriadau i ymdrin â hyn. Bydd angen modelu trafniadaeth ac asesiad pellach o rwydwaith priffyrdd y dref i lywio'r cynigion manwl sydd i'w datblygu.

O ystyried pwysigrwydd rhwydweithiau trafniadaeth a symud i wireddu potensial canol tref Pontypridd, mae'r cynllun creu lleoedd wedi nodi problemau a chyfleoedd allweddol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth drwy adolygu dogfennau polisi lleol a chenedlaethol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ymhllith y materion a nodwyd, mae llwybrau beicio datgysylltiedig, ffyrdd sy'n achosi hollt yng nghanol y dref a chyfleoedd i wella glan yr afon a'r cynnig hamdden ym Mharc Coffa Ynysangharad.

Cynhyrchodd y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid set o amcanion trafniadaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y dref. Y rhain yw:

- Amcan 1 – Sefydlu 'ymdeimlad o gyrraedd' cadarnhaol yng Ngorsaf Reilffordd Pontypridd sy'n cysylltu'r orsaf â chanol y dref;
- Amcan 2 – Gwella'r cysylltiadau rhwng canol tref Pontypridd a Pharc Coffa Ynysangharad i atgyfnerthu rôl y Parc fel 'calon werdd' i'r dref;
- Amcan 3 – Cefnogi datblygiad yr economi gyda'r nos a datblygiad preswyl canol tref i wneud Pontypridd yn lle bywiog i fyw; ac
- Amcan 4 – Darparu gofod masnachol i gefnogi ystod amrywiol o ddefnyddiau er mwyn creu economi canol tref sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau yn y dyfodol.

Yna, aseswyd rhestr hir o opsiynau posibl yn erbyn pob un o'r amcanion i nodi prosiectau trafniadaeth annibynnol a rhai wedi'u pecynnu, yn cynnwys cynlluniau effaith isel a chanolig y gellir eu gweithredu'n dameidiog neu fesul cam dros amser. Nodir pob prosiect fel rhan o'r cynllun creu lleoedd (cyfeiriwch at adran 3).

Mae'r ymyriadau a nodwyd yn ymdrin â'r themâu allweddol canlynol: cysylltedd i gerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a'r dref; gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf a'r cwrw blaen; gwelliannau i gyfnewidfeydd rheilffordd a bysiau; cyfeirbwyntiau ac arwyddion; estyniad gwasanaethau bws a thrên; adnewyddu manau cyhoeddus allweddol a chysylltiadau cerddwyr; adnewyddu a hyrwyddo asedau diwylliannol/ treftadaeth seilwaith Teithio Llesol ar hyd yr afon; gwella croesfannau'r afon; cefnogi datblygiad preswyl a masnachol.

2.0 PONTYPRIDD YN 2035: UCHELGEISIAU CRAIDD

Er mwyn cytuno ar y gofynion a'r canlyniadau craidd y mae'n rhaid i'r cynllun creu lleoedd fynd i'r afael â nhw a'u cyflawni, nodwyd cyfres o uchelgeisiau craidd ac ysgogwyr dylunio ar gyfer canol y dref. Nodwyd y rhain i ymateb i'r materion a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd yn ystod y dadansoddiad, a chytunwyd arnynt yn ailadroddol trwy ddau weithdy gyda swyddogion a phersonél allweddol o Lywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Thrafnidiaeth Cymru.

Yn ystod y gweithdai, cytunwyd hefyd ar amcanion trafndiaeth y dref. Mae gwell seilwaith trafndiaeth yn allweddol i gyflawni mentrau datblygu a chreu lleoedd newydd ym Mhontypridd. Felly, nodwyd yr amcanion trafndiaeth ochr yn ochr â'r uchelgeisiau craidd a'r ysgogwyr dylunio allweddol i sicrhau bod y cynllun creu lleoedd yn cael ei ategu gan ddull trafndiaeth cadarn a fydd yn helpu i gyflawni'r prosiectau allweddol.

Cyflwynir yr uchelgeisiau craidd a'r ysgogwyr dylunio isod.

1. CYRCHFAN BUSNES

.... gydag ardaloedd datblygu sefydledig yn darparu pyrth trawiadol i'r dref a chyfres o fannau gwaith hyblyg sy'n cyfuno i wneud Pontypridd yn lle deniadol i fuddsoddi a gweithio ynddo.

4. TREF WERDD AR LAN Y DŴR

.... gyda golygfa unigryw dros yr Afon Taf a Pharc Coffa hanesyddol Ynysangharad sy'n darparu lleoliad hamdden ac adloniant heb ei ail a thirwedd nodedig.

7. TREF GYNHWYSOL A GWYDN

.... gyda rhwydwaith o strydoedd a manau unigryw sy'n ddiogel a hygyrch, yn wydn ac yn addasadwy i heriau'r dyfodol, sy'n gwneud y gorau o'r golygfeydd o'r treflun unigryw a lleoliad glan yr afon ac yn darparu lle ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

2. LLE GWYCH I FYW

.... gyda dewis o gartrefi newydd o ansawdd uchel, swyddi hygyrch a chynnig hamdden pwrpasol wedi'i ddarparu mewn lleoliad unigryw ar lan yr afon.

5. TREFLUN UNIGRYW

.... gydag adeiladau treftadaeth eiconig sy'n cael eu dathlu ac sydd wedi'u hailddefnyddio i gynnwys cymysgedd o ddefnyddiau modern bywiog.

3. CYSYLLTIEDIG A HYGGRCH

.... gyda chysylltiadau gwydh i gerddwyr rhwng canol y dref a'r gorsafoedd trenau a bysiau a seilwaith beicio o ansawdd uchel sy'n sefydlu'r dref fel canolfan i archwilio tirwedd ehangach y cymoedd.

6. CYRCHFAN DDIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL

.... gyda rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau ar gyfer Pontypridd sy'n denu ymwelwyr ac yn sefydlu'r ganolfan fel Cyrchfan Ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw.



Mae Pont William Edwards yn ased treftadaeth allweddol ac yn nodwedd nodedig ym mynedfa ogleddol canol y dref.

2.1 PONTYPRIDD YN 2035: YSGOGWYR DYLUNIO



DATBLYGIADAU

- Datgloi safleoedd datblygu newydd a fydd yn adeiladu ar gynllun Llys Cadwyn a darparu mwy o leoedd gwaith, cartrefi a chyfleoedd hamdden.
- Canolbwyntio datblygiadau newydd o amgylch dulliau trafniadaeth allweddol i greu pyrth newydd i Bontypridd.
- Ailddatblygu lloeriau uchaf yr unedau presennol i ddarparu cartrefi a mannau gwaith newydd.



CYSYLLTEDD

- Gwella cysylltedd cerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a'r dref.
- Sefydlu gwell integreiddiad rhwng dulliau trafniadaeth yn yr orsaf reilffordd.
- Darparu arhosfan trên newydd ger yr orsaf fysiau a fydd yn creu cyfnewidfa newydd.
- Gwella cysylltedd cerddwyr gorllewin/dwyrain drwy'r dref.
- Cadw mannau parcio addas tra'n hwyluso datblygiadau newydd.
- Gwella cysylltedd beicio ar draws canol y dref a Pharc Coffa Ynysangharad.



SEILWAITH GWYRDD

- Sefydlu lleoliad unigryw ger yr afon ar gyfer y dref.
- Defnyddio plannu i integreiddio Parc Coffa Ynysangharad â chanol y dref.
- Ymgorffori mwy o dirlunio meddal i seilwaith ffyrdd a mannau cyhoeddus i leddfu'r dirwedd.
- Cyflwyno mannau gwyrdd a phlanhigion newydd a all helpu i leihau
- dŵr ffo a helpu i liniaru llifogydd yn y dyfodol.

2.1 PONTYPRIDD YN 2035: YSGOGWYR DYLUNIO

Tudalen 167



TREFLUN

- Sefydlu pyrth newydd i'r dref.
- Creu ffryntiadau newydd ar yr afon.
- Adfer pensaerniaeth hanesyddol y dref, gan gynnwys yr adeilad marchnad rhestredig gradd II.
- Cynyddu uchder adeiladau o amgylch lleoliadau nodol allweddol i greu tirnodau eiconig newydd.



DIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL

- Sefydlu Parc Coffa Ynysangharad fel lleoliad a chyrchfan gymdeithasol a diwylliannol.
- Creu arlwy hamdden amrywiol sydd â phresenoldeb ar lan yr afon.
- Amrywio'r arlwy manwerthu a hamdden a ddarperir ym Marchnad Pontypridd.
- Sefydlu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau i'w cynnal ledled y dref.



TIR Y CYHOEDD

- Creu sgwariau newydd ar lan yr afon a phyrth i mewn i'r dref.
- Gwella cysylltiadau â Parc Coffa Ynysangharad.
- Gwella rhyngweithiad ag Afon Taf ac Afon Rhondda.

3.0 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD

Arweiniodd yr uchelgeisiau, yr ysgogwyr dylunio a'r amcanion trafndiaeth at nodi cyfres o brosiectau ar gyfer canol y dref. Byddai pob un o'r rhain yn gweithio tuag at gyflawni'r uchelgeisiau craidd a mynd i'r afael â'r ysgogwyr dylunio; gyda'i gilydd, byddant yn trawsnewid canol tref Pontypridd.

Byddai cyflenwi'r prosiectau yn:

- Sefydlu pyrth newydd i'r dref.
- Datgloi cyfleoedd datblygu masnachol ar raddfa fawr.
- Sicrhau gwell integreiddio rhwng dulliau trafndiaeth gyhoeddus.
- Adfer adeiladau traddodiadol gyda defnyddiau tir gweithredol newydd.
- Adfywio Marchnad Pontypridd.
- Adfywio treflun traddodiadol y dref.
- Creu lleoliad ger yr afon a pharcdir newydd.
- Gwneud canol y dref yn fwy gwydn i lifogydd a allai ddigwydd yn y dyfodol.
- Creu gofod ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol.
- Datblygu presenoldeb a brand digidol cryfach.

Mae'r prosiectau wedi'u grwpio'n ddau faes gwahanol:

1. Prosiectau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd allweddol o ganol y dref.
2. Prosiectau ategol sy'n ddigidol, heb fod yn ffisegol, ac sydd wedi'u lleoli ychydig y tu allan i ganol y dref, ond a fyddai'n helpu i adfywio'r canol.

Rhoddir mwy o fanylion am bob un o'r meysydd prosiect hyn dros y tudalennau canlynol.

3.1 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: PRIF FEYSYDD GWEITHREDU

Gellir grwpio'r rhan fwyaf o brosiectau'r cynllun creu lleoedd i'r meysydd gweithredu allweddol yng nghanol y dref. Amlinellir y rhain isod.

Tudalen 169

Porth Deheuol

Porth newydd i'r dref sydd ag amrywiaeth o ddefnyddiau masnachol yn yr orsaf reilffordd, gwell integreiddio o ran dulliau trafndiaeth, ailddatblygu'r blociau datblygu allweddol yn sylweddol, cysylltiad uniongyrchol i gerddwyr ar draws yr A4058 a gwell parth cyhoeddus sy'n agor y fynedfa i'r dref, ac yn sefydlu sgwâr ar lan yr afon.

Craidd Canol y Dref

Craidd atgyfnerthedig o adeiladau wedi'u hadnewyddu sy'n darparu detholiad o gartrefi a gweithleoedd newydd unigryw gyda lleoliad glan yr afon, datblygiad newydd ar lan yr afon a fydd yn darparu mannau gwaith, cartrefi a defnyddiau hamdden, llwybr cerdded ar lan yr afon a chysylltiadau a mannau gwell i gerddwyr.

Y Farchnad

Ardal Farchnad bwrpasol o fewn Craidd Canol y Dref sy'n darparu adeilad marchnad wedi'i adnewyddu a chynnig cyfleoedd manwerthu a hamdden unigryw mewn lleoliad hanesyddol, sef calon canol y dref.

Porth y Gogledd

Porth gogleddol newydd i'r dref sy'n cynnwys gorsaf fysiau wedi'i hailddatblygu, arhosfan trenau newydd, maes parcio canol y dref, datblygu mwy o leoedd gwaith, parc celf a diwylliant a gwell llwybrau i gerddwyr.

Parc Coffa Ynysangharad

Parc treftadaeth sydd â lleoliad naturiol ar lan yr afon, arlwy chwaraeon a hamdden amrywiol, sy'n ganolbwynt ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol ac yn ganolfan i grwydro Parc Rhanbarthol y Cymoedd ohoni.

Ardaloedd gweithredu y dref



3.1 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: PRIF FEYSYDD GWEITHREDU

PORTH DEHEUOL

- Defnyddio'r gofodau sy'n rhy ddistaw yng Ngorsaf Drenau Pontypridd i gefnogi gofod swyddfa a manwerthu.
- Ailwampio cwrt blaen yr orsaf reilffordd i wella'r ymdeimlad o gyrraedd yr orsaf a darparu mannau cyhoeddus (gyda thirwedd galed newydd, planhigion, celfi stryd a goleuadau) sy'n darparu gofod ar gyfer unedau manwerthu a gofod gwaith.
- Darparu cilfachau bysiau, mannau parcio i'r anabl a man aros am dacsis y tu allan i'r orsaf fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu cwrt blaen yr orsaf.
- Gwella'r llwybr croesi i gerddwyr dros yr A4058 i ddarparu cysylltiad uniongyrchol i gerddwyr a beicwyr rhwng y Stryd Fawr a'r orsaf reilffordd. Unrhyw groesfan yn y dyfodol i gael ei dylunio fel rhan o flaengwrt gorsaf newydd.
- Ailddatblygu'r blociau trefol allweddol gyferbyn â'r orsaf reilffordd i ddarparu porth deheuol nodedig i'r dref a gwella'r cyswllt rhwng canol y dref ac afonydd Rhondda a Thaf a Pharc Coffa Rhyfel Ynysangharad. Creu gofod llawr newydd i ddarparu defnydd swyddfa, phreswyl, manwerthu, hamdden a gwesty sy'n ysgogi economi'r nos.
- Ailddatblygu Tŷ Sardis i ddarparu gofod swyddfa a/neu westy newydd gyda mynediad uniongyrchol i blatfform yr orsaf reilffordd.
- Ailddatblygu maes parcio Heol Sardis i ddarparu gofod swyddfa newydd gyda mynediad uniongyrchol i'r orsaf reilffordd. Cadw elfen o gapasiti parcio ceir presennol. Cysylltiad presennol â'r orsaf i'w adnewyddu i ddarparu mynediad addas i gerddwyr.




Porth deheuol

3.1 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: PRIF FEYSYDD GWEITHREDU

CRAIDD CANOL Y DREF

- Gwella'r rhyngweithio rhwng canol y dref, Afon Taf a Pharc Coffa Ynysangharad trwy ddarparu ymylon bywiol i ddrychiadau cefn eiddo ar Stryd Taf. Gallai defnyddiau newydd gynnwys siopau ar lefel y ddaear gyda gofod preswyl a/neu gofod swyddfa ar raddfa fach ar loriau uwch. Adnewyddu ffasadau cefn lle na fwriedir unrhyw ailddatblygu.
- Ailgyflwyno llwybrau a manau ar lan y dŵr ar hyd cefn Stryd Taf i gysylltu datblygiad Llys Cadwyn a maes parcio Heol y Weithfa Nwy gyda'r defnyddiau masnachol y gellid eu darparu ar y Stryd Fawr.
- Ailddatblygu lloriau uwch eiddo ar Stryd Taf i ddarparu fflatiau newydd a manau gwaith ar raddfa fach. Bydd manau o'r fath yn amrywio'r defnydd tir yng nghanol y dref ac yn cynyddu gweithgaredd yn y dref y tu hwnt i oriau manwerthu traddodiadol.
- Gwella'r treflun trwy ailddatblygu adeiladau o ansawdd gwael, ac adfer adeiladau treftadaeth fel bod eu harddull pensaernïol yn cael ei ddathlu ac yn amlwg yn nhreflun y ganolfan.
- Mynd i'r afael ag anghysondebau mewn uchder lloriau drwy ganol y dref drwy ailddatblygu adeiladau o ansawdd isel ar raddfa fach
- Integreiddio manau digwyddiadau hyblyg yn strydoedd canol y dref.
- Cynyddu maint y seilwaith gwyrdd ar hyd Stryd Taf, Stryd Crossbrook, Heol Gelliwastad a Ffordd Penuel. Gallai hyn gynnwys coed, planhigion, waliau glas a manau agored.
- Gwella ymddangosiad esthetig y lonydd cefn sy'n cysylltu canol y dref ag Afon Taf a mynediad pontydd i Barc Coffa Ynysangharad.
- Gwella ansawdd a chysylltedd llwybr beicio cenedlaethol 4 ac 8 trwy ganol y dref a Pharc Coffa Ynysangharad.
- Lleihau maint y seilwaith ffyrdd ar Heol Gelliwastad (tra'n cadw ei rôl fel llwybr gwasanaeth allweddol) i leihau goruchafiaeth symudiadau cerbydau ac ailgysylltu craidd canol y dref â'r dreftadaeth bensaernïol a'r gwasanaethau cymunedol sydd yno (Canolfan Gelf y Miwni ac Eglwys St Catherine).
- Ailgyllunio Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy i greu man mwy deniadol sy'n gyfeillgar i gerddwyr ac wedi'i integreiddio'n well â'r llwybr cerdded arfaethedig ar lan yr afon a datblygiad Llys Cadwyn gerllaw. Cadw'r swyddogaeth barcio ceir bresennol ynghyd â threfniadau iwasanaethu'r eiddo ar Stryd Taf.



3.1 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: PRIF FEYSYDD GWEITHREDU

Y FARCHNAD

- Adfer ac ailddatblygu'n sensitif Marchnad Dan Do Pontypridd, sy'n adeilad rhestredig gradd II, i greu Cyrchfan Ddiwylliannol a hamdden nodedig sy'n ffurfio calon canol y dref. Byddai'r cynnig yn cynnwys adnewyddu a gwella'r adeilad mewn modd sensitif ac adfywio'r cynnig manwerthu presennol i ddarparu cynnyrch lleol o ansawdd rhagorol a defnyddiau hamdden mwy amrywiol mewn lleoliad unigryw.
- Ailddatblygu lloriau uwch eiddo ar Stryd y Farchnad/ Stryd yr Eglwys i ddarparu fflatiau newydd a mannau gwaith ar raddfa fach. Bydd mannau o'r fath yn amrywio'r defnydd tir yn Ardal y Farchnad ac yn cynyddu gweithgaredd yn Ardal y Farchnad y tu hwnt i oriau manwerthu traddodiadol.
- Gwella'r treflun trwy ailddatblygu adeiladau o ansawdd gwael ac adfer adeiladau treftadaeth fel bod eu harddull pensaernïol yn cael ei ddathlu ac yn amlwg yn nhreflun Ardal y Farchnad.
- Mynd i'r afael ag anghysondebau mewn uchder lloriau drwy'r cyfan o Ardal y Farchnad drwy ailddatblygu'r adeiladau bach sydd o ansawdd isel.
- Cynyddu maint y seilwaith gwyrdd ar hyd Stryd y Farchnad/ Stryd yr Eglwys. Gallai hyn gynnwys coed, planhigion, waliau glas a mannau agored.
- Adnewyddu ac aildefnyddio adeilad Hen Neuadd y Dref fel gofod digwyddiadau allweddol a nodedig.



Y Farchnad

3.1 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: PRIF FEYSYDD GWEITHREDU

PORTH GOGLEDDOL

- Ailddatblygu ac adfer YMCA Pontypridd i greu cyfleuster amlbwrpas cwbl hygyrch gan gynnwys swyddfeydd a manau gwaith ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau a chyfres o gyfleusterau celfyddydol pwrpasol.
- Ailddatblygu ac adnewyddu eiddo gerllaw'r YMCA ar Stryd Taf i ddarparu ffryntiad mwy priodol i ddatblygiad Llys Cadwyn.
- Gwella'r orsaf fysiau bresennol a manteisio ar gyfleoedd cyfagos i ddatblygu rhagor o swyddfeydd.
- Archwilio opsiynau a hyfywedd i gyflawni gwelliant Metro De Cymru gerllaw'r orsaf fysiau a fyddai'n sefydlu cyfnewidfa newydd.
- Diwygio trefniadau parcio yn yr ardal i wasanaethu'r gyfnewidfa newydd, ateb y galw yng nghanol y dref a thrawsnewid i gynnwys cyfleusterau gwefru trydan a thechnolegau carbon isel.
- Darparu man cyhoeddus newydd o amgylch yr orsaf fysiau newydd a swyddfeydd yn y dyfodol sy'n rhoi cysylltiadau o ansawdd uchel i gerddwyr i ddatblygiad Llys Cadwyn a darparu ymdeimlad priodol o gyrraedd canol y dref.
- Creu parc diwylliannol lle gellir cynnal arddangosfeydd dros dro y tu ôl i Amgueddfa Pontypridd gyda golygfeydd dros Bont William Edwards.
- Ailddatblygu Canolfan Gelf y Miwni at ddefnydd diwylliannol.
- Archwilio cyfleoedd ailddatblygu ar Heol Berw i ddarparu gofod swyddfa / defnydd cymysg.



Porth Gogleddol

3.1 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: PRIF FEYSYDD GWEITHREDU

PARC COFFA RHYFEL YNYSANGHARAD

- Datblygu defnydd hamdden ym mynedfa ogleddol y Parc ar lan yr afon.
- Darparu gwell mynediad gogleddol i Barc Coffa Ynysangharad sydd wedi'i integreiddio â llecyn cyhoeddus newydd, sy'n darparu gwell mynediad at Afon Taf ac a allai fod yn fan ar gyfer digwyddiadau.
- Gwella ac annog rhyngweithio ag Afon Taf trwy gyflwyno arlwy chwaraeon dŵr a hamdden.
- Gwella cysylltedd gweledol a ffisegol ar hyd glan ddwyreiniol yr afon trwy reoli a chynnal y seilwaith gwyrdd presennol yn well.
- Creu lle hyblyg dan do/awyr agored yn y Parc lle gellir cynnal digwyddiadau hamdden a diwylliannol.
- Sefydlu hwb beicio a fyddai'n ganolfan allweddol i archwilio Llwybr Taf a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd yn ehangach. Gallai'r cyfleusterau gynnwys cyfleusterau rhentu, gwybodaeth am lwybrau a chyrchfannau, gweithdy, a lluniaeth ysgafn.
- Gwella'r seilwaith yn y maes criced i ddarparu cyfleoedd i Glwb Criced Morgannwg chwarae gemau ar y maes.
- Datblygu cyfleusterau newid newydd a gwelliannau i fynediad ledled y Parc, fel ei fod yn cyflawni ei rôl fel safle porth cyrchfan Parc Rhanbarthol y Cymoedd.
- Datblygu Canolfan Hyfforddiant a Gweithgareddau.



Parc Coffa Rhyfel Ynysangharad

3.2 Y CYNLLUN CREU LLEOEDD: CEFNOGI PROSIECTAU

Yn ogystal ag phrosiectau ardal canol tref â ffocws, nodwyd cyfres brosiectau ategol a fydd yn helpu i adfywio canol y dref. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltedd digidol a phrosiectau seilwaith, anffisegol; prosiectau fel digwyddiadau a phrosiectau ffisegol wedi'u lleoli ychydig y tu allan i ganol y dref. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys:

- Sefydlu campws iechyd yn Ysbyty Dewi Sant.
- Sefydlu cyrchfan chwaraeon modern amrywiol yn Sardis Road sy'n gyfleuster rhanbarthol elitaidd ac yn adnodd ar gyfer clybiau chwaraeon lleol a grwpiau cymunedol.
- Gwella eglurder ar draws y dref trwy resymoli arwyddion, cynnal cysylltiadau gweledol trwy'r dref a defnyddio triniaethau tirwedd caled, plannu a goleuadau i gyfeirio symudiad ar gyffyrdd allweddol.
- Ehangu ar y rhaglen bresennol o ddigwyddiadau i ddatblygu calendr cyson o weithgareddau sy'n cynnwys treftadaeth, bwyd, cerddoriaeth a hamdden. (1).
- Gweithredu cyfres o fesurau creu lleoedd dros dro a all greu diddordeb a gweithgaredd yng nghanol y dref. (2).
- Cydlynw goleuadau ledled y dref i wella adeiladau allweddol a manau cyhoeddus. (3).
- Darparu gwasanaethau trên a bws yn hwyrach gyda'r nos gyda thocynnau integredig.
- Ymgorffori cyfleusterau llogi beiciau mewn pyrth allweddol i'r dref ac mewn lleoliadau canolog.
- Gwella mapiau ac arwyddion i'r llwybrau beicio ffurfiol ac anffurfiol sy'n cysylltu â'r rhanbarth ehangach.
- Gwella marchnata a chyfathrebu gyda Phrifysgol De Cymru i ddenu myfyrwyr i ymweld a byw yn y dref.

- Cyflwyno wifi am ddim ar draws y dref.
- Gwella seilwaith digidol yn y dref i annog datblygiadau newydd.
- Creu stryd fawr ddigidol trwy ddatblygu ap sy'n hyrwyddo canol y dref a'i busnesau.
- Creu adnoddau digidol sy'n bodoli eisoes (mapiau ar-lein/gwefan/ap y cyngor) i helpu i ganfod y ffordd ar gyfer y cyfleoedd beicio a cherdded o amgylch Pontypridd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd yn ehangach.
- Sefydlu brand a strategaeth farchnata ar gyfer y dref sy'n hyrwyddo'r arlwy hamdden, twristiaeth a manwerthu yn gyson.




4.0 YMYRIADAU ALLWEDDOL

O fewn pob un o'r ardaloedd gofodol allweddol, mae safleoedd gyda photensial a phwysigrwydd arbennig i'r cynllun creu lleoedd. Gall y safleoedd hyn gynnwys ymyriadau ar raddfa fawr a fyddai'n cael effaith sylweddol o ran trawsnewid canol y dref a'r rôl y mae'n ei chyflawni yn y Brifddinas-Ranbarth. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys:

- Gorsaf Reilffordd a'r Stryd Fawr yn y Porth Deheuol (A).
- Maes Parcio Heol Sardis yn y Porth Deheuol (B).
- Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy yng Nghraidd Canol y Dref (C).
- Gorsaf Fysiau yn y Porth Gogleddol (D).

Ceir mwy o fanylion am yr ymyriadau posib ar y safleoedd hyn isod.



Prif feysydd ymyriadau



Gorsaf Reilffordd Pontypridd



(B) Maes Parcio Heol Sardis



(C) Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy



(D) Gorsaf Fysiau Pontypridd

Tudalen 177

4.1 YMYRIADAU ALLWEDDOL GORSAF REILFFORDD A'R STRYD FAWR

Tudalen 178

Mae'r Orsaf Reilffordd a'r Stryd Fawr yn darparu'r Porth Deheuol i'r dref. Dyma'r ardal gyntaf y mae pobl yn ei gweld wrth ddod i mewn i'r dref ac felly dyma'r lle allweddol i sefydlu mynedfa drawiadol i'r dref a gwneud cysylltiadau gwledol â lleoliad afon a pharcdir y dref.

Gellid cyflwyno cyfres o gynigion ailddatblygu yn yr ardal hon i ddarparu ymdeimlad nodedig o gyrraedd y dref a lle newydd a allai ddarparu gofod gwaith newydd, defnyddiau hamdden, a gwesty.

Mae ailddatblygu hen safle y Neuadd Bingo yn gyfle allweddol gan fod yr eiddo mewn lleoliad amlwg ac yn wag. Gallai ailddatblygu drawsnewid y safle yn ddatblygiad defnydd cymysg nodedig sy'n diffinio'r fynedfa ddeheuol i ganol y dref a darparu cartrefi newydd, gwestai, manau gwaith neu ddefnyddiau manwerthu. Mae ailddatblygu'r safle felly yn flaenoriaeth allweddol. (1).

Byddai'n ofynnol i ddatblygiadau newydd a gyflwynir yn yr ardal hon fod o ansawdd pensaernïol uchel er mwyn gwneud datganiad pensaernïol gofynnol, manteisio ar gyfleoedd i greu rhyngwyneb nodedig ag Afon Taf ac Afon Rhondda, sefydlu golygfeydd dros Barc Coffa Ynysangharad a chreu manau o ansawdd rhagorol ar gyfer pobl. Byddai graddfa'r datblygiad yn cael ei gytuno drwy'r broses ddylunio fanwl. (2, 3, 4 a 7).

Gellid cael elfennau masnachol newydd yn yr orsaf reilffordd, lle mae llawer iawn o ofod sy'n cael ei danddefnyddio, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer manwerthu, hamdden a manau gwaith hyblyg (5, 6 ac 8). Byddai angen i ddatblygiadau newydd a gyflwynir fod yn briodol i gymeriad hanesyddol yr orsaf a chyfrannu at ei hadferiad.



4.1 YMYRIADAU ALLWEDDOL GORSAF REILFFORDD A'R STRYD FAWR

Tudalen 179

Yn yr ardal hon, mae cyfle hefyd i wella'r cysylltedd i gerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd, canol y dref ac ardaloedd preswyl cyfagos, cyflwyno mwy o seilwaith teithio llesol ac integreiddio'r orsaf reilffordd yn well â gwasanaethau bysiau a thacsis lleol.

Er mwyn gwella cysylltedd cerddwyr rhwng yr Orsaf Reilffordd a'r Stryd Fawr, mae angen gwell opsiynau i gerddwyr groesi'r A4058. Gellid cyflawni hyn trwy groesfan un bwa newydd yn uniongyrchol o fynedfa'r orsaf i ben uchaf y Stryd Fawr trwy sgwariau newydd y tu allan i'r orsaf ac ar ben y Stryd Fawr. (9). Gellid hefyd ystyried pont droed sy'n darparu mynediad uniongyrchol rhwng platform yr orsaf reilffordd a'r Stryd Fawr. (10). Byddai angen i unrhyw bont droed fod o'r ansawdd pensaernïol uchaf.

Er mwyn llywio croesfan ar raddfa, byddai angen modelu trafndiaeth pellach i hysbysu hyfywedd y dyluniad a'r diwygiadau sydd eu hangen i'r rhwydwaith priffyrdd a gweithrediad signalau.

Er mwyn gwella cysylltedd rhwng yr orsaf a'r ardal breswyl i'r de o'r orsaf, mae angen gwelliannau i bont y Stryd Fawr.

Gellid darparu mwy o seilwaith teithio llesol ar ffurf cyfleusterau storio beiciau a'u llogi yn sgwâr yr orsaf newydd, a allai gael ei wasanaethu gan amrywiaeth o lwybrau beicio sy'n cysylltu â'r ardal leol ehangach. Gellid integreiddio dulliau trafndiaeth yn well trwy gynnwys manau aros am fysiau a thacsis y tu allan i sgwâr yr orsaf. Gellid darparu manau gollwng teithwyr anabl yn y lleoliad hwn hefyd. (11 a 12).



4.1 YMYRIADAU ALLWEDDOL: GORSAF REILFFORDD A'R STRYD FAWR

UCHELGEISIAU CRAIDD A GYFLAWNIR:

- **Cyrchfan Busnes** - Byddai manau gwaith modern gyda mynediad rhagorol i'r orsaf reilffordd yn cael eu darparu fel rhan o'r arwynebedd llawr newydd sydd i'w greu.
- **Lle Gwych i Fyw** - Byddai rhai o'r cartrefi newydd gyda golygfeydd o'r afon neu barc a defnyddiau hamdden a manwerthu newydd gyda mynediad yn cael ei ddarparu i sgwariau glan yr afon unigryw.
- **Cysylltiedig a Hygrch** - Byddai'r groesfan arfaethedig i gerddwyr ar draws yr A4058 yn gwella cysylltedd rhwng canol y dref a'r orsaf reilffordd tra byddai'r sgwâr newydd yn cynnwys lle ar gyfer integreiddio dulliau trafnidiaeth yn well.
- **Tref Werdd ar Lan y Dŵr** - Byddai gan y mwyafrif o'r datblygiadau arfaethedig olygfeydd o Afon Rhondda neu Afon Taf, tra byddai Stryd Taf yn cynnwys mwy o nodweddion tirwedd meddal.
- **Treflun Unigryw** - Byddai'r datblygiad yn ychwanegu dyluniad cyfoes at dreflun traddodiadol y dref.
- **Cyrchfan Ddiwylliannol a Chymdeithasol** - Byddai'r arlwy hamdden a manwerthu a gynhwysir yn y datblygiad newydd yn gwella enw da'r dref fel cyrchfan gymdeithasol.
- **Tref Gynhwysol a Gwydn** - Byddai'r llwybrau cerddwyr newydd ar draws yr A4058 yn creu llwybr diogel a hygrch i'r dref, tra byddai'r sgwariau'n darparu lleoliadau awyr agored unigryw a mynedfeydd i gynnal gweithgareddau cymdeithasol diogel a busnesau lleol.

YSGOGWYR DYLUNIO A GYFLAWNIR:



DATBLYGIADAU

- Datgloi safleoedd datblygu newydd a fydd yn adeiladu ar gynllun Llys Cadwyn a darparu mwy o leoedd gwaith, cartrefi a chyfleoedd
- Canolbwyntio datblygiadau newydd ar foddau trafnidiaeth allweddol i greu mynedfeydd newydd i Bontypridd.



TREFLUN

- Sefydlu pyrth newydd i'r dref.
- Creu ffryntiadau newydd ar yr afon.



CYSYLLTEDD

- Gwella cysylltedd cerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a'r dref.
- Sefydlu gwell integreiddiad rhwng dulliau trafnidiaeth yn yr orsaf reilffordd.



DIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL

- Creu arlwy hamdden amrywiol sydd â phresenoldeb ar lan yr afon.



SEILWAITH GWYRDD

- Sefydlu lleoliad glan dŵr unigryw ar gyfer y dref.
- Ymgorffori mwy o dirlunio meddal yn y seilwaith ffyrdd a thir y cyhoedd.
- Cyflwyno manau gwyrdd a phlanhigion newydd a all helpu i leihau dŵr ffo a helpu i liniaru llifogydd yn y dyfodol.



TIR Y CYHOEDD

- Creu sgwariau newydd ar lan yr afon a phyrth i mewn i'r dref.
- Gwella'r rhyngweithiad ag Afon Taf ac Afon Rhondda.

4.1 YMYRIADAU ALLWEDDOL: GORSAF REILFFORDD A'R STRYD FAWR

Tudalen 181



Braslun yn dangos datblygiadau newydd a chroesfan i gerddwyr

4.2 YMYRIADAU ALLWEDDOL: MAES PARCIO HEOL SARDIS

Tudalen 182

Mae gan Faes Parcio Heol Sardis fynediad uniongyrchol i orsaf reilffordd Pontypridd, sydd â chysylltedd rheilffordd rhagorol, ac a wasanaethir gan gysylltiad priffyrdd strategol. Mae hefyd ym mherchnogaeth y sector cyhoeddus. Mae pob un o'r nodweddion hyn yn gwneud y safle'n gyfle allweddol i'r dyfodol, a chan ddibynnu ar alw'r farchnad, gallai rhan o'r safle gael ei ddwyn ymlaen ar gyfer datblygiad defnydd cymysg neu fannau gwaith newydd. (1).

Mae'r safle ar hyn o bryd yn cyflawni rôl bwysig o ran darparu maes parcio i'r dref. Byddai angen diogelu elfen o barcio mewn unrhyw ailddatblygiad yn y dyfodol os bydd y galw am ei ddefnydd yn parhau.

Fel rhan o unrhyw waith ailddatblygu, dylid darparu manau cyhoeddus a manau amwynder o ansawdd uchel ar gyfer trigolion yn y dyfodol. (2 a 3).

Dylai'r cynigion ailddatblygu hefyd wella'r mynediad pont droed presennol i'r orsaf reilffordd i wneud y llwybr yn fwy diogel a dymunol. Fel rhan o uwchraddio'r bont droed, dylid ystyried sefydlu seilwaith tirwedd cryf ar hyd y llwybr a chysylltu'r llwybr â Thŷ Sardis (3, 5 a 6).

Mae ailddatblygu Tŷ Sardis yn gyfle ychwanegol yn yr ardal hon. Mae'r eiddo hefyd yn perthyn i'r sector cyhoeddus, a gallai fod â mynediad uniongyrchol i'r orsaf reilffordd. Mae'r safle felly yn gyfle arall i ddarparu datblygiad enghreifftiol sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth, ac sy'n darparu lle gwaith neu o bosibl westy (4).

Dylai'r cynigion ailddatblygu weithio mewn synergedd ag ymyriadau'r Orsaf Reilffordd a'r Stryd Fawr.



4.2 YMYRIADAU ALLWEDDOL: MAES PARCIO HEOL SARDIS

UCHELGEISIAU CRAIDD A GYFLAWNIR:

- **Cyrchfan Busnes** - Darperir manau gwaith modern gyda mynediad uniongyrchol i'r orsaf reilffordd.
- **Cysylltiedig a Hygyrch** - Byddai uwchraddio'r bont droed bresennol yn gwella mynediad i'r orsaf reilffordd a chanol y dref, tra byddai gwelliannau eraill i'r seilwaith cerddwyr cyfagos yn cryfhau hygyrchedd y safle ymhellach.
- **Tref Werdd ar Lan y Dŵr** - Byddai nodweddion tirwedd meddal wedi'u hymgorffori yn y bont droed yn rhoi nodwedd werdd unigryw i'r dref, tra byddai plannu mewn manau cyhoeddus newydd yn cynyddu maint y seilwaith gwyrdd yn y dref.
- **Treflun Unigryw** - Byddai'r datblygiad yn ychwanegu dyluniad cyfoes at dreflun traddodiadol y dref.
- **Cyrchfan Ddiwylliannol a Chymdeithasol** - Byddai darparu'r lle gwell yn gyfle ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol.
- **Tref Gynhwysol a Gwydn** - Byddai tir y cyhoedd, gofod hamdden awyr agored a mynediad llinellol y parc i'r orsaf reilffordd yn darparu lleoliad awyr agored unigryw.

YSGOGWYR DYLUNIO A GYFLAWNIR:



DATBLYGIADAU

- Datgloi safleoedd datblygu newydd a fydd yn adeiladu ar gynllun Llys Cadwyn a darparu mwy o leoedd gwaith, cartrefi a chyfleoedd hamdden.
- Canolbwyntio datblygiadau newydd ar ddulliau trafndiaeth allweddol i greu mynedfeydd newydd i Bontypridd .



TREFLUN

- Sefydlu pyrth newydd i'r dref.



CYSYLLTEDD

- Gwella cysylltedd cerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a'r dref.



TIR Y CYHOEDD

- Creu sgwariau newydd ar lan yr afon a phyrth i mewn i'r dref.



SEILWAITH GWYRDD

- Ymgorffori mwy o dirlunio meddal yn y seilwaith ffyrdd a thir y cyhoedd.
- Cyflwyno manau gwyrdd a phlanhigion newydd a all helpu i leihau dŵr ffo a helpu i liniaru llifogydd yn y dyfodol.

4.3 YMYRIADAU ALLWEDDOL: MAES PARCIO HEOL Y WEITHFA NWY

Mae Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy yn ganolog o fewn ardal y cynllun creu lleoedd, ac mae mewn lleoliad gwyth gerllaw Afon Taf a datblygiad Llys Cadwyn. Mae'r safle hefyd yn eiddo i'r sector cyhoeddus.

Mae'r llecyn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel maes parcio canol tref, sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth, ond sy'n amharu ar amwynder y rhan hon o ganol y dref ac yn atal cyfleoedd i fanteisio ar leoliad glan yr afon. Gyda dyluniad meddylgar, gallai'r safle gael ei drawsnewid yn ofod amlswyddogaethol newydd sy'n cadw'r ddarpariaeth parcio yng nghanol y dref, ond sydd hefyd yn darparu man awyr agored gwyrdd newydd i drigolion ac ymwelwyr â'r dref.

I ddechrau, mae'n debygol y bydd angen i'r ddarpariaeth parcio ceir aros fel y mae ar hyn o bryd, ond dros amser wrth i'r defnydd o geir leihau a mwy o bobl ddefnyddio rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus gwell mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i leihau'r ddarpariaeth barcio i greu mwy o fannau gwyrdd cyhoeddus.

Mae lleoliad safle Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy yn golygu ei fod mewn lleoliad perffaith i integreiddio canol y dref yn well gyda'r afon a Pharc Coffa Ynysangharad, darparu lleoliad awyr agored nodedig i Llys Cadwyn, a chysylltu'r safle ailddatblygu â llwybr troed arfaethedig ger yr afon (5) a fyddai'n cael ei leoli y tu ôl i Stryd Taf ac a fyddai'n cysylltu Llys Cadwyn â datblygiadau newydd arfaethedig ar y Stryd Fawr. Byddai dyluniad y man newydd angen cydgysylltu agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, ond bydd y ffocws allweddol ar wyrddhau safle gyda digon o seilwaith gwyrdd a Systemau Draenio Cynaliadwy a allai gyfrannu at wella gwytnwch llifogydd canol y dref. (6, 7, 8, 9 & 10). Dylid dylunio'r gofod hefyd i ddarparu nodweddion nodedig a fyddai'n gwneud yr ardal yn lle gwyth i gymdeithasu. (1, 2, 3, 4 & 9).




4.3 YMYRIADAU ALLWEDDOL: MAES PARCIO HEOL Y WEITHFA NWY



Byddai unrhyw ddatblygiad masnachol ar y safle yn debygol o fod yn gymedrol ei natur, i gydnabod y perygl o lifogydd, gyda defnyddiau wedi'u cyfyngu i ddefnydd hyblyg tebyg i gaffi y gellid ei ddylunio fel na fyddai'n cael ei effeithio'n fawr gan ddigwyddiad llifogydd. (12 & 13).

Dylai unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gyfer ailddatblygu adeiladau ar Stryd Taf gerllaw Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy ystyried cyfleoedd i edrych dros y gofod newydd. (11).

Fel rhan o ailddatblygu'r safle, byddai angen diogelu mynediad cerddwyr i Stryd Taf a mynediad i fusnesau ar Ffordd Penuel. Dylid cadw rhan o faes parcio canol y dref hefyd i'w ddefnyddio gan ymwelwyr anabl â chanol y dref.



Tudalen 185



4.3 YMYRIADAU ALLWEDDOL: MAES PARCIO HEOL Y WEITHFA NWY

UCHELGEISIAU CRAIDD A GYFLAWNIR:

- **Cyrchfan Busnes** - Byddai man cyhoeddus gwell (gyda chadw rhywfaint o le parcio yng nghanol y dref) o fudd i fusnesau presennol ac yn annog buddsoddiad newydd. Gallai'r gofod hefyd helpu i hwyluso'r llwybr cerdded arfaethedig ar lan yr afon y tu ôl i Stryd Taf.
- **Cysylltiedig a Hygyrch** - Byddai gwella'r maes parcio yn creu man cyrraedd gwell i'r dref mewn car ac yn gwella'r cysylltiad i gerddwyr â Stryd Taf. Byddai manau parcio ar gyfer ymwelwyr anabl yn cael eu cadw i sicrhau bod hygyrchedd yn cael ei gynnal.
- **Tref Werdd ar Lan y Dŵr** - Byddai gwella'r maes parcio yn darparu gwell gosodiad a chysylltiad rhwng canol y dref ac Afon Taf a Pharc Coffa Ynysangharad. Byddai hefyd yn gyfle i gyflwyno ardaloedd plannu newydd.
- **Treflun Unigryw** - Gallai'r gofod newydd ychwanegu dyluniad cyfoes at dreflun traddodiadol y dref a thrawsnewid tir y cyhoedd gwael yn ofod deniadol newydd i bobl ei ddefnyddio.
- **Cyrchfan Ddiwylliannol a Chymdeithasol** - Gallai'r gofod newydd gwell fod yn lleoliad ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol.
- **Tref Gynhwysol a Gwydn** - Byddai gwella'r maes parcio yn creu amgylchedd mwy deniadol i gerddwyr, ac yn creu cyfle i sefydlu llwybr troed unigryw ger glan yr afon. Byddai man cyhoeddus newydd yn darparu manau awyr agored wedi'u dylunio i gynnal gweithgaredd cymdeithasol diogel. Trwy ddylunio gofalus, gallai hefyd helpu i liniaru llifogydd yn y rhan hon o'r dref.

YSGOGWYR DYLUNIO A GYFLAWNIR:



DATBLYGIADAU

- Datgloi safleoedd datblygu newydd a fydd yn adeiladu ar gynllun Llys Cadwyn a darparu mwy o leoedd gwaith, cartrefi a chyfleoedd hamdden.
- Canolbwyntio datblygiadau newydd ar ddulliau trafniadaeth allweddol i greu mynedfeydd newydd i Bontypridd.



TREFLUN

- Creu ffryntiadau newydd ar yr afon.



CYSYLLTEDD

- Gwella cysylltiedd cerddwyr gorllewin/dwyrain drwy'r dref.
- Cadw lle parcio addas tra'n hwyluso datblygiad newydd.



DIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL

- Creu arlwy hamdden amrywiol sydd â phresenoldeb ar lan yr afon.



SEILWAITH GWYRDD

- Sefydlu lleoliad a chefnidir unigryw ger yr afon ar gyfer y dref.
- Cyflwyno manau gwyrdd a phlanhigion newydd a all helpu i leihau dŵr ffo a helpu i liniaru llifogydd yn y dyfodol.



TIR Y CYHOEDD

- Creu sgwariau newydd ar lan yr afon a phyrth i mewn i'r dref.
- Gwella rhyngweithiad ag Afon Taf ac Afon Rhondda.



- Adeilad**
- Arfaethedig
 - Wedi'i Ailwampio
 - Presennol
- Tirlunio caled**
- Sgwâr Arfaethedig / Man Cyhoeddus Allweddol
 - Sgwâr Presennol / Man Cyhoeddus Allweddol
 - Ardal/Stryd Arfaethedig i Gerddwyr
 - Ardal/Stryd Presennol i Gerddwyr
 - Ardal Gyfnerthedig Arfaethedig
 - Ffordd Presennol
 - Plot Presennol
 - Rheilffordd
 - Llwybr Beic Arfaethedig
 - Lôn Beicwyr a Cherddwyr a Rennir arfaethedig
 - Lôn fysiau
- Tirlunio meddal**
- Tirlunio meddal
 - Parth Clustogi Gwyrdd
 - Afon
 - Nodwedd Dŵ r
 - Coeden Arfaethedig
 - Coeden Presennol
- Arall**
- Ffin
 - Llinell Ddymchwel
- 1 Cadw Maes Parcio
 - 2 Is-orsaf Presennol
 - 3 Lôn Wasanaeth Wrth Gefn
 - 4 Ciosg gyda Seddi Awyr Agored
 - 5 Sgwâr Gwyrdd
 - 6 Grisiau / Amffitheatr
 - 7 Llwybr Glan yr Afon
 - 8 Sgwâr Glan yr Afon
 - 9 Teras Glan yr Afon
 - 10 Man Digwyddiadau ym Mharc Ynysangharad
 - 11 Tir y Cyhoedd wedi'i Adfywio
 - 12 Llwybr Troed Lletach gyda Llwybr Beicio
 - 13 Adnewyddu'r Hen Theatr

Dyluniad cysyniadol ar gyfer gwella Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy lle y gallai capasiti parcio gael ei leihau dros y tymor hir

4.4 YMYRIADAU ALLWEDDOL: CYFNEWIDFA TRAFNIDIAETH

Tudalen 188

Mae gorsaf fysiau Pontypridd ym mhen gogleddol canol y dref ger rheilffordd Aberdâr a Merthyr. Mae hefyd yn agos at faes parcio canol y dref a Llys Cadwyn. Mae cyfle tymor hir i integreiddio dulliau trafnidiaeth yn well yn y lleoliad hwn, cynyddu cysylltedd y dref a'i safleoedd datblygu allweddol yn seiliedig ar drafnidiaeth gyhoeddus a chreu Porth Gogleddol newydd i'r dref trwy ddylunio o ansawdd uchel. (1 a 3).

Fel rhan o welliannau i'r seilwaith trafnidiaeth, efallai y bydd cyfleoedd i ddarparu arwynebedd llawr masnachol newydd ar gyfer rhai defnyddiau manwerthu a gallai mannau gwaith gael eu datgloi. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd sefydlu ymdeimlad gwych o gyrraedd a chynnwys llwybrau cerddwyr wedi'u tirlunio a sgwariau sy'n darparu cysylltiadau clir â'r dref ac yn darparu gofod i bobl a busnesau ei ddefnyddio (2 a 4).

Fel rhan o'r cynigion, dylid sefydlu cysylltiadau gweledol cryf â Phont William Edwards, lle mae cyfleoedd i sefydlu parc diwylliannol a chelf allanol gyda golygfeydd dros yr afon. (5, 6 a 7).



4.4 YMYRIADAU ALLWEDDOL: CYFNEWIDFA TRAFNIDIAETH

UCHELGEISIAU CRAIDD A GYFLAWNIR:

- **Cyrchfan Busnes** - Byddai galw am leoedd gwaith yn cael ei greu gan gysylltedd gwell drwy drafnidiaeth gyhoeddus a datblygu safleoedd allweddol yng nghanol y dref.
- **Lle Gwych i Fyw** - Byddai integreiddio dulliau trafniadaeth yn well yn gwella cysylltedd i ogledd y dref ac yn ei gwneud yn haws i drigolion y dref a'r trefi cyfagos deithio.
- **Cysylltiedig a Hygyrch** - Byddai cyfnewidfa yn gwella hygyrchedd i ogledd y dref ac yn cysylltu dulliau trafniadaeth, tra byddai'r llwybrau a'r sgwâr newydd yn gwella cysylltedd cerddwyr i'r dref.
- **Tref Werdd ar Lan y Dŵr** - Byddai tirwedd feddal yn cael ei chyflwyno drwy'r llwybrau cerddwyr a'r sgwâr newydd er mwyn lleddfu'r olwg ar dir y cyhoedd a chymathu'r datblygiad newydd i Amgueddfa Pontypridd ac Afon Taf.
- **Treflun Unigryw** - Byddai'r datblygiad yn creu porth newydd i'r dref ac yn ychwanegu dyluniad cyfoes i dreflun traddodiadol y dref.
- **Cyrchfan Ddiwylliannol a Chymdeithasol** - Byddai defnyddiau manwerthu yn cael eu darparu fel rhan o'r orsaf fysiau, a fyddai'n ysgogiad i gyflwyno'r llwybrau cerdded a'r sgwâr newydd.
- **Tref Gynhwysol a Gwydn** - Mae llwybrau a manau newydd i gerddwyr yn rhoi'r cyfle i sefydlu strydoedd a lleoedd i bobl, ac mae'r porth newydd yn cynnig ymdeimlad gwych o gyrraedd. Mae presenoldeb Amgueddfa Pontypridd a Phont William Edwards yn rhoi cyfle i ymgorffori treftadaeth y dref yn y porth newydd.

YSGOGWYR DYLUNIO A GYFLAWNIR:



DATBLYGIADAU

- Datgloi safleoedd datblygu newydd a fydd yn adeiladu ar gynllun Llys Cadwyn a darparu mwy o leoedd gwaith, cartrefi a chyfleoedd hamdden.
- Canolbwyntio datblygiadau newydd ar ddulliau trafniadaeth allweddol i greu mynedfeydd newydd i Bontypridd.



TREFLUN

- Sefydlu pyrth newydd i'r dref



CYSYLLTEDD

- Darparu arhosfan trên newydd ger yr orsaf fysiau a fydd yn creu cyfnewidfa newydd.
- Gwella'r cysylltedd gorllewin/dwyrain i gerddwyr drwy'r dref.
- Cadw lle parcio addas tra'n hwyluso datblygiad newydd.



TIR Y CYHOEDD

- Creu sgwariau newydd ar lan yr afon a phyrth i mewn i'r dref.
- Gwella rhyngweithiad ag Afon Taf ac Afon Rhondda.




SEILWAITH GWYRDD

- Ymgorffori mwy o dirlunio meddal yn y seilwaith ffyrdd a thir y cyhoedd.
- Cyflwyno manau gwyrdd a phlanhigion newydd a all helpu i leihau dŵr ffo a helpu i liniaru llifogydd yn y dyfodol.

5.0 SYMUDIADAU A CHYSYLLTIADAU

Mae pob un o'r meysydd ymyrraeth allweddol yn darparu cyfleoedd i wella'r amgylchedd i gerddwyr a chreu mannau diogel a deniadol sydd o fudd i ymwelwyr a busnesau. Mae'r diagram gyferbyn yn dangos sut y gallai pob un o'r meysydd allweddol gydweithio i greu tref sydd wedi'i chysylltu'n well â strydoedd a mannau sy'n lleoedd gwych i bobl dreulio amser ynddynt.

- Gorsaf Reilffordd a'r Stryd Fawr: Porth newydd i ganol y dref a gwell cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr a'r amgylchedd rhwng yr orsaf reilffordd, canol y dref ac ardaloedd preswyl cyfagos. Mae cyfleoedd datblygu newydd ar y Stryd Fawr yn rhoi cyfle i sefydlu mannau newydd sy'n edrych dros afonydd y Taf a'r Rhondda.
- Maes Parcio Heol Sardis a Thŷ Sardis: Gellid darparu gwell cysylltiadau rhwng y safleoedd, yr orsaf reilffordd a chanol y dref trwy bont droed newydd sydd wedi'i hintegreiddio â'r dirwedd feddal a chaled nodedig. Mae cyfleoedd eraill hefyd i wella'r llwybrau cerdded allweddol eraill ar Heol Sardis.
- Maes Parcio Heol y Weithfa Nwy: Man cyhoeddus nodedig ar lan yr afon sy'n creu mynedfa newydd i'r dref ac yn lleddfu effaith y maes parcio presennol, y gellid ei gadw. Byddai hefyd yn creu gosodiad gwell i Lys Cadwyn a gellid ei integreiddio â chysylltiad newydd i gerddwyr ar lan yr afon y tu ôl i Stryd Taf a'r Stryd Fawr.
- Cyfnwida Ogleddol: Byddai datblygiad trafniadaeth newydd yn rhoi'r cyfle ar gyfer porth newydd i ogledd y dref sydd wedi'i integreiddio â'r datblygiadau newydd, yn pwysleisio'r gwead hanesyddol ac yn blaenoriaethu symudiad a phrofiad cerddwyr.



Symudiad a chysylltiadau

6.0 CASGLIAD

Mae canol tref Pontypridd wedi wynebu heriau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf; yn gyntaf, wynebu'r heriau i'r sector manwerthu ac yna fe gafwyd llifogydd a ddifrododd ardaloedd helaeth o'r dref ac a beryglodd y busnesau a'r gweithwyr. Yn fwyaf diweddar, mae'r dref, fel trefi eraill ar draws y DU, hefyd wedi wynebu'r heriau economaidd- gymdeithasol a achoswyd gan COVID-19. Er nad yw'r heriau sy'n gysylltiedig â'r pandemig drosodd eto, mae rhesymau dros optimistiaeth oherwydd, drwy gydol y cyfnod hwn, mae canol y dref a'i chymuned wedi dangos gwytnwch parhaus anhygoel.

Mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn seiliedig ar leoliad a rhinweddau unigryw'r dref, ac mae'n darparu'r sail ar gyfer sefydlu Pontypridd fel lle unigryw i weithio, byw ac ymweld ag ef. Mae'r weledigaeth yn y cynllun creu lleoedd hwn yn uchelgeisiol yn y cyd-destun presennol, ond mae hefyd yn realistig a gellir ei chyflawni gan randdeiliaid preifat a chyhoeddus yn gweithio ar y cyd dros gyfnod o amser.

Eisoes, mae buddsoddiad ym Mhontypridd ar y gweill yn natblygiad Llys Cadwyn a bydd y Metro yn trawsnewid cysylltedd y dref. Mae'r datblygiad newydd ynghyd â'r cynnig i greu y lleoedd newydd a nodir yn y cynllun hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r cyd-destun cyffrous a chyfnewidiol hwn, a gyda'i gilydd, gallant alluogi Pontypridd unwaith eto i fod yn ganolfan economaidd, cymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n darparu ar gyfer anghenion ei thrigolion a hefyd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer lledaenu twf a ffyniant drwy'r Brifddinas-Ranbarth ehangach.



Golygfa dros ganol tref Pontypridd



PORTH Y DE PONTYPRIDD

PRIF GYNLLUN

Chwefror, 2022

Aratwyd gan: Liam Hopkins, Francesca Visione, William Purdie, James Alexander Foxhall
Cyfeiriad: The Urbanists, The Creative Quarter, 8A Morgan Arcade, Caerdydd, CF10 1AF, Y Deyrnas Unedig
E-bost: liam.hopkins@theurbanists.net, francesca.visione@theurbanists.net
Gwefan: www.theurbanists.net

Dyddiad cyhoeddi	03 02 2022
Statws lluniau	DRAFFT
Revision	02
Adolygiad	FV, LH
Awdur	LH

Caiff yr holl gynlluniau yn y ddogfen yma eu hatgynhyrchu o'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (C) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron ac mae'n bosibl bydd hyn yn arwain at erlyniad neu achos cyfreithiol. Rhif Trwydded 100054593.

Paratowyd gan:

Ar ran:



CYFLWYNIAD

Mae Porth y De wedi'i nodi yng Nghynllun Creu Lleoedd Pontypridd yn un o'r ardaloedd allweddol lle y mae modd cynnal ymyriadau a buddsoddi'n sylweddol ynddi. Byddai hyn yn cael cryn effaith wrth drawsnewid canol y dref a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn perthynas â hybu ffyniant y Fwrdeistref Sirol a'r Brifddinas-Ranbarth ehangach.

Yn rhan o ddatblygiad y Cynllun Creu Lleoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol o ran caffael eiddo allweddol yn yr ardal i sicrhau bod modd iddo reoli'r math o ddatblygiad a fydd yn digwydd a sicrhau'r ansawdd dylunio gorau. Yng ngoleuni'r caffaeliadau yma, mae cyfle i hyrwyddo'r dull dylunio a chreu lleoedd ar gyfer Porth y De.

Porth y De yw'r ardal gyntaf y mae pobl yn ei gweld wrth ddod i mewn i'r dref o'r de, gan gynnwys o orsaf drenau Pontypridd, sy'n orsaf allweddol yng nghynllun Metro De Cymru. Mae trawsnewid yr ardal felly yn rhoi'r cyfle i greu ymdeimlad amlwg o gyrraedd sy'n unigryw i Bontypridd. Dyma gyfle i groesawu pobl i'r dref, gwella ei hadeiladau hanesyddol hardd ac agor y dref i'w lleoliad ar lan yr afon a ger y parc.

Tudalen 195

Golygfa dros ganol tref Pontypridd

PRIF GYNLLUN PORTH DEHEUOL

Mae'r prif gynllun arfaethedig ar gyfer Porth y De yn dangos sut y mae modd i'r ardal ymateb i'r materion a'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi a chael ei thrawsnewid yn borth sy'n:

- darparu defnyddiau masnachol newydd a fyddai'n cryfhau bywiogrwydd canol y dref
- creu cyfleoedd ar gyfer pensaernïaeth a manau cyhoeddus nodedig newydd sy'n ychwanegu at asedau unigryw'r dref ac yn cryfhau ei hymdeimlad o le
- creu lleoliad glan yr afon newydd ar gyfer y dref


Y meysydd allweddol o ran ymyriadau yn y prif gynllun yw:

1. Hen neuadd Bingo a Chlwb nos 'Angharad's'.
2. Hen safle Marks & Spencer a Dorothy Perkins.
3. Y bloc masnachol lle mae Tesco yn denant.
4. Y strydoedd a'r manau cyhoeddus sy'n amgylchynu'r lleiniau datblygu allweddol yma (gan gynnwys Heol Sardis, y Stryd Fawr a Stryd Taf).



PRIF GYNLLUN PORTH Y DE

Tudalen 197



CASGLIAD

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae canol tref Pontypridd wedi denu buddsoddiad sylweddol sy'n trawsnewid y dref ac yn ei hailsefydlu fel lle i ymweld ag ef, i weithio ac i fyw ynddo. Mae Cynllun Creu Lleoedd Pontypridd yn darparu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Pontypridd sy'n manteisio ar y momentwm yma ac yn rhoi fframwaith ar gyfer cyflawni buddsoddiad a all wireddu'r uchelgais.

Ar hyn o bryd dydy ardal Porth y De ddim yn cyflawni ei photensial sylweddol, ac mae'r prif gynllun yn y ddogfen yma yn nodi sut y mae modd unioni hyn.

Bydd y cynigion ailddatblygu yn creu ymdeimlad nodedig wrth gyrraedd y dref, yn darparu pensaernïaeth newydd a chymysgedd amrywiol o safleoedd a fydd yn amrywio'r profiad yng nghanol y dref. Byddan nhw'n gwella cysylltedd ffisegol a gweledol ac yn creu gofod a lleoliad unigryw ar lan yr afon.

Mae ardal Porth y De yn gyfle strategol i ddechrau cyflawni'r Cynllun Creu Lleoedd ar raddfa fawr, gan greu momentwm sylweddol a all barhau â thwf sylweddol y dref.



Golygfa o'r awyr o ganol tref Pontypridd



Tudalen way



RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

CABINET

28TH FEBRUARY 2022

REGULATION OF INVESTIGATORY POWERS ACT 2000 (RIPA) and INVESTIGATORY POWERS ACT 2016 (IPA) - USE OF INVESTIGATORY POWERS DURING 2021 BY RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

REPORT OF THE DIRECTOR OF LEGAL SERVICES AND DIRECTOR OF PUBLIC HEALTH, PROTECTION & COMMUNITY SERVICES IN DISCUSSION WITH THE DEPUTY LEADER, CLLR WEBBER

Author: Judith Parry, Trading Standards & Registrar Service Manager

1. PURPOSE

To enable Members to review for the period 1st January to 31st December 2021:

- 1.1 The Council's use of the Regulation of Investigatory Powers Act 2000 (as amended) (RIPA); and
- 1.2 The Council's use of the Acquisition of Communications Data under the Investigatory Powers Act 2016 (IPA).

2. RECOMMENDATIONS

It is recommended that Cabinet:

- 2.1 Note the contents of this report; and
- 2.2 Acknowledge that investigatory powers in respect of covert surveillance and acquisition of communications data have been used in an appropriate manner that is consistent with the Council's RIPA and IPA policies during the period 1st January – 31st December 2021.

3. REASONS FOR RECOMMENDATIONS

- 3.1 To ensure Members are kept apprised of how RIPA has been used during the period 1st January – 31st December 2021 and that it has been used in an appropriate manner consistent with the Council's RIPA policies.

- 3.2 The Cabinet is responsible for providing oversight for effective and appropriate use of specific investigatory powers under the Council's Corporate RIPA and IPA Policies; and to ensure that the policies remain fit for purpose.

4. USE OF RIPA BY THE COUNCIL: 1ST JANUARY – 31ST DECEMBER 2021

Directed Surveillance and the use of Covert Human Intelligence Sources

New Authorisations

- 4.1 During the period 1st January – 31st December 2021 there were no authorisations in respect of directed surveillance. During the same period, there were no authorisations for the use of covert human intelligence sources.
- 4.2 Directed surveillance authorisations can be issued where it is necessary and proportionate in order to prevent or detect crime, or prevent disorder, where at least one of the offences is punishable by a maximum term of imprisonment of at least six months or more or relates to the underage sale of alcohol or tobacco/nicotine.
- 4.3 The post pandemic recovery period has meant that some departments did not return to 'business as usual' during 2021. Over the previous years, the majority of covert surveillance authorisations related to fly-tipping in the county borough. Whilst this activity has, unfortunately, not diminished, the service area has been controlling through overt surveillance, for which RIPA authorisation is not required.
- 4.4 It is likely that 2022 will see a return to pre-pandemic activity in relation to authorisations. It is important that policies remain current to utilise this investigative tool when it is needed.

Authorisations extant as at 1st January 2021

- 4.5 There were no directed surveillance authorisations that were carried forward from the previous calendar year (2020). Similarly, no authorisations in respect of a Covert Human Intelligence Source extant remain extant.

Authorisations extant as at 1st January 2022

- 4.6 No authorisations have been carried forward into 2022.

Human Rights Act Authorisations

- 4.7 At the commencement of an investigation, officers may need to carry out non-overt work which does not fall within the statutory requirements for RIPA, predominantly because the work is carried out in a manner that there is little likelihood of obtaining private information (collateral intrusion). The use of non-overt enforcement techniques are assessed to ensure that they are carried out

in compliance with the requirements of the Human Rights Act 1998 (HRA). Such assessments are recorded on a Human Rights Act consideration form, whereby the necessity, proportionality and purpose of the activity are addressed, precautions are introduced to minimise collateral intrusion and the use of the technique is approved by a senior manager.

4.8 If this preparatory investigative work carried indicates that an investigation needs to be carried out using RIPA-based techniques, officers will apply for RIPA authorisation.

4.9 During the period of this report, the HRA authorisations were:

<i>Anti-social behaviour monitoring</i>	0
<i>Underage sales test purchasing</i>	0
<i>Proxy sales monitoring</i>	0
<i>Internet site monitoring</i>	18
<i>Vehicle test purchasing</i>	0

4.10 Of note this period is the return to pre-pandemic numbers in respect of internet site monitoring. Such sites are predominantly monitored for investigations into sale of illegal products via social media.

4.11 Members may recall that the last reporting period included monitoring in relation to diversification of trading practices and a move away from high street premises to online presence during the pandemic period, commonly termed 'from bricks to clicks'. As this mode of trading increases, it is important to ensure that all service areas who may be moving to online monitoring are up to date with HRA processes, and when such monitoring may move into the realms of covert surveillance.

4.12 Whilst monitoring through social media may initially be considered intrusive, in many instances it can lead to a level of remote interaction between service areas and businesses that results in timelier resolution to enquiries; this has proved of benefit during the pandemic period.

4.13 Activity in other areas, such as underage sales test purchasing is still curtailed by risk assessment, due to the need to use volunteers who would have to remove their face masks to demonstrate their age to prospective sellers of restricted goods. Any complaint of proxy sales can be investigated through use of premises CCTV, however no such complaints have been received during this period.

4.14 A review of HRA authorisations showed that on no occasion did they result in an improper infringement of a person's human rights.

Communications Data

4.15 During the reporting period, three applications for communications data were submitted via the National Anti-Fraud Network (NAFN) in relation to telephone numbers used as part of fraudulent activity.

- 4.16 All three applications related to traders resident outside of Rhondda Cynon Taf who had defrauded local residents.
- 4.17 Two of the traders proved untraceable: one having given false information to register the mobile phone, and one using a pre-paid mobile which limits the amount of intelligence available. The third application resulted in a joint investigation and court case alongside Shared Regulatory Services, and custodial sentences of 2 years and 4 years, with compensation for consumers involved.

5. CONSULTATION/ INVOLVEMENT

This report has been prepared in consultation with the Council's Trading Standards & Registrar Service Manager who is responsible for operational oversight of RIPA matters.

6. EQUALITY AND DIVERSITY

There are no equality or diversity implications linked to this report.

7. FINANCIAL IMPLICATIONS

There are no financial implications linked to the contents of this report.

8. LINKS TO THE COUNCILS CORPORATE PLAN/ OTHER COUNCIL PRIORITIES

The report will ensure that effective governance arrangements with regards to RIPA remain in place by the Council.

9. CONCLUSION

The Senior Responsible Officer (Director of Legal & Democratic Services) considers that RIPA has been used appropriately in relation to all of the above uses of directed surveillance and acquiring of communications data and that RIPA has been used in a manner that is consistent with the Council's Corporate Policies.

LOCAL GOVERNMENT ACT 1972
AS AMENDED BY
THE LOCAL GOVERNMENT (ACCESS TO INFORMATION) ACT 1985
RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL
CABINET
28TH FEBRUARY 2022

**ITEM: REGULATION OF INVESTIGATORY POWERS ACT 2000 (RIPA) and
INVESTIGATORY POWERS ACT 2016 (IPA) - USE OF INVESTIGATORY POWERS
DURING 2021 BY RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT OF THE DIRECTOR OF LEGAL SERVICES AND DIRECTOR OF PUBLIC
HEALTH, PROTECTION & COMMUNITY SERVICES IN DISCUSSION WITH THE
DEPUTY LEADER, CLLR WEBBER**

Background Papers

Freestanding Report.

Tudalen wag

Document is Restricted

Tudalen wag